



Loughborough
University

Llyfrgelloedd yn Gwneud Gwahaniaeth:

Pumed fframwaith ansawdd Safonau
Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2014-2017

Crynodeb o berfformiad 2014-17

Claire Creaser a Sonya White

Prifysgol Loughborough

Rhagfyr 2017

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	Error! Bookmark not defined.
1. Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
2. Cyd-destun llyfrgelloedd Cymru	Error! Bookmark not defined.
2.1. Nodweddion y boblogaeth	Error! Bookmark not defined.
2.2. Ystad y llyfrgelloedd	Error! Bookmark not defined.
2.3. Adnoddau a defnyddio llyfrgelloedd	Error! Bookmark not defined.
3. Hawliau craidd	Error! Bookmark not defined.
3.1. Cwsmeriaid a chymunedau	Error! Bookmark not defined.
3.2. Mynediad i bawb	Error! Bookmark not defined.
3.3. Dysgu am oes	Error! Bookmark not defined.
3.4. Arweinyddiaeth a datblygu	Error! Bookmark not defined.
4. Dangosyddion ansawdd	Error! Bookmark not defined.
4.1. DASLICC 1 Gwneud gwahaniaeth	10
4.2. DASLICC 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid	11
4.3. DASLICC 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol	12
4.4. DASLICC 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr	13
4.5. DASLICC 5 Lleoliad mannau gwasanaeth	14
4.6. DASLICC 6 Defnyddio'r llyfrgell	14
4.7. DASLICC 7 Cyfanswm nifer defnyddwyr yn nigwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell	16
4.8. DASLICC 8 Deunydd darllen cyfoes	16
4.9. DASLICC 9 Deunydd darllen priodol	20
4.10. DASLICC 10 Mynediad ar-lein	23
4.11. DASLICC 11 Defnyddio TGCh	25
4.12. DASLICC 12 Cyflenwi ceisiadau	26
4.13. DASLICC 13 Lefelau a chymwysterau staff	27
4.14. DASLICC 14 Gwariant gweithredol	31
4.15. DASLICC 15 Y gost am bob ymweliad	32
4.16. DASLICC 16 Oriau agor	33
5. Astudiaethau achos effaith	Error! Bookmark not defined.
6. Casgliad	Error! Bookmark not defined.
Atodiad: Hawliau craidd a dangosyddion ansawdd	38

Mae'r holl ddyfyniadau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn wedi'u codi o'r astudiaethau achos effaith a gyflwynwyd gan lyfrgelloedd ar hyd y cyfnod fframwaith.

Acronymau:

SLICC = Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

HG = Hawl Graidd

DA = Dangosydd Ansawdd

HCSLICC = Hawliau Craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

DASLICC = Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Crynodeb Gweithredol

Roedd pumed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC) yn cwmpasu'r cyfnod o 2014 hyd at 2017, a gwelwyd gwahaniaeth amlwg o'i gymharu â'r fframweithiau blaenorol drwy fod mwy o bwyslais ar effaith y gwasanaeth llyfrgell. Mae'r dystiolaeth ynghylch yr effaith a gyflwynwyd yn ystod y fframwaith hwn yn galonogol, gan ddangos y gwir wahaniaeth y mae gwasanaethau llyfrgell yn ei wneud i fywydau pobl. Dros gyfnod y fframwaith, mae llyfrgelloedd wedi cyflwyno dros 200 o astudiaethau achos unigol sy'n dangos effaith y gwasanaeth mewn meysydd megis iechyd a lles, cynhwysiant cymdeithasol, llythrennedd digidol a chyflogaeth.

“Tra bod myfyrwyr cyfoethocach yn gallu fforddio astudio lle mynnon nhw, byddwn i'n cerdded milltir neu ddwy i'r Llyfrgell [gyhoeddus] bob dydd i ddefnyddio'r cyfleusterau. ... Nid yn unig yr oedd yn ymarfer i fy nghorff, roedd hefyd yn ehangu fy meddwl. ... Mae fy mywyd wedi newid am byth oherwydd llyfrgell. Eich llyfrgell chi.”

Mae 2014-2017 wedi bod yn gyfnod anodd iawn i lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru, gyda chyfyngiadau eang ar gyllidebau a dirywiad cyffredinol ym mherfformiad llyfrgelloedd, ond mae llyfrgelloedd yn parhau i fod yn wydn. Cymysg iawn yw'r darlun ledled Cymru gyfan dros gyfnod y tair blynedd. Er bod gwelliannau a chryfder i'w gweld mewn rhai meysydd, mae elfennau eraill o ddarpariaeth llyfrgelloedd wedi dioddef. Mae llyfrgelloedd yn parhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i flaenoriaethau strategol lleol a chenedlaethol, ac mae effaith hyn yn amlwg. Mae'n bosibl dod i gasgliadau cyffredinol er gwaethaf y sefyllfa amrywiol, ac mae'r adroddiad hwn yn ceisio tynnu sylw at y cryfderau ochr yn ochr â'r meysydd sy'n peri pryder.

Awgryma'r newidiadau a adroddwyd fod y gwasanaeth o ddydd i ddydd i'r cyhoedd yn debygol o waethygu gan fod llyfrgelloedd ar agor am lai o oriau, bod llai o stoc ynddynt, a llai o staff i helpu i ddarparu gwasanaethau. Er mai un o gryfderau'r pumed fframwaith fu gwydnwch y staff yn wyneb cyfyngiadau sylweddol ar gyllidebau, a bod bodlonrwydd cwsmeriaid yn parhau'n uchel, eto mae'n rhaid pryderu rhywfaint a fydd llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn gallu parhau i ddatblygu gwasanaethau sy'n berthnasol i anghenion Cymru a'i phobl ar y lefelau staffio difrifol o isel sydd ohoni.

I'r cwsmer, cafodd yr hawliau craidd yn gyffredinol eu cyflawni gyda gwelliannau mewn sawl maes dros gyfnod y fframwaith, megis darparu'r rhyngrwyd, cyfrifiaduron a Wi-Fi am ddim (HG 10). Gwelwyd mai hawl graidd 17 yn ymwneud â mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell yw'r anoddaf i'r awdurdodau ei chyflawni'n llawn drwy gydol y pumed fframwaith, a hynny oherwydd newidiadau sydd wedi digwydd mewn sefydliadau.

Mae bodlonrwydd cwsmeriaid â'r gwasanaethau llyfrgell yn gyffredinol yn parhau'n uchel, a'r graddau isaf o ran bodlonrwydd yn ymwneud â'r dewis o lyfrau. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd y gostyngiad yn y cyllidebau llyfrau. Gan fod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi ymdrechu i geisio cadw canghennau llyfrgelloedd, mae'r cyfyngiadau ariannol wedi effeithio ar y gyllideb deunyddiau. O ganlyniad, mae'r derbyniadau cyffredinol fesul 1,000 o'r boblogaeth a'r gwariant deunyddiau fesul 1,000 o'r boblogaeth yn parhau i syrthio ac mae'n parhau yn is na'r targedau a osodwyd ym mhob un o dair blynedd y fframwaith. Fodd bynnag, mae'r

gyfradd adnewyddu ar gyfer Cymru gyfan wedi parhau i fod uwchlaw'r targed o 11% ym mhob un o dair blynedd y fframwaith.

O ran y dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, ar gyfartaledd, mae Cymru gyfan yn cyflawni tri dangosydd yn llawn, ac yn rhannol gyflawni'r pedwar arall. Mae'r ddarpariaeth TGCh yn parhau yn un o gryfderau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru a'r holl awdurdodau yn cyflawni'r targed yn llawn ar gyfer cymorth TGCh (DA 3) yn 2015-16 ac yn 2016-17. Mae nifer y cyfrifiaduron fesul pob 10,000 o'r boblogaeth ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd wedi aros yn gymharol sefydlog drwy gydol y cyfnod – a hynny ar lefel sydd ychydig yn uwch na'r targed o 9. Er bod y defnydd ar TGCh cyhoeddus wedi gostwng, mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn y ddarpariaeth Wi-Fi a nifer yr ymwelwyr sy'n dod â'u dyfeisiau eu hunain.

Cafwyd gostyngiadau ledled Cymru ym mesurau traddodiadol defnyddio llyfrgelloedd. Mae ymweliadau a benthyciadau fesul 1,000 o'r boblogaeth ill dau wedi gostwng dros gyfnod y fframwaith, tra bod cyfanswm nifer benthyciadau clyweledol/lawrlwythiadau electronig fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi parhau'n weddol sefydlog yn ystod y cyfnod tair blynedd. Fodd bynnag, mae nifer y benthycwyr gweithredol fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi sefydlogi rhywfaint yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaraf.

Mae cyfran gyffredinol y gwariant deunyddiau sydd wedi'i wario ar adnoddau Cymraeg eu hiaith wedi bod yn uwch na'r targed o 4% drwy gydol y pumed fframwaith. Fodd bynnag, mewn cyferbyniad, mae'r gwariant ar ddeunydd Cymraeg am bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n siarad a darllen Cymraeg wedi bod yn is na'r targed o £750 ym mhob un o'r tair blynedd ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.

Mae lefelau staffio yn parhau i syrthio ac maent nawr yn argyfyngus o isel. Mae cyfanswm staff fesul pob 1,000 o'r boblogaeth a'r staff cymwysedig fesul pob 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer Cymru yn gyffredinol wedi bod yn is na'r targedau a osodwyd yn nwy flynedd ddiwethaf y fframwaith. Er gwaethaf hyn, mae 97% o ddefnyddwyr sy'n oedolion yn credu bod safon y gofal cwsmeriaid yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Er gwaethaf gostyngiad yn y lefelau staffio yn gyffredinol, mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau a'r nifer mewn sesiynau hyfforddi a drefnwyd ymlaen llaw fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu yn ystod y pumed fframwaith ar gyfer Cymru gyfan.

Arwydd calonogol arall o ran y staff yw cyfran amser staff sydd wedi'i dreulio yn hyfforddi ac yn datblygu, gan fod yn uwch na'r targed a osodwyd o 1% ym mhob un o dair blynedd y fframwaith ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.

Mae'r oriau agor blynyddol cyfartalog fesul pob 1,000 o'r boblogaeth wedi gostwng dros gyfnod y pumed fframwaith ar gyfer Cymru gyfan, a hynny'n ganlyniad uniongyrchol i gyllidebau yn crebachu; er hynny, mae'r lefel wedi parhau uwchlaw'r targed o 120 awr ar agor am bob 1,000 o'r boblogaeth ym mhob un o'r tair blynedd yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

Wrth ystyried pedwar maes y fframwaith (*Cwsmeriaid a chymunedau; Mynediad i bawb; Dysgu am oes; ac Arweinyddiaeth a datblygu*) ar y cyfan, mae llyfrgelloedd Cymru yn perfformio'n dda ym meysydd cwsmeriaid a chymunedau, a mynediad i bawb, ond mae dysgu am oes ac arweinyddiaeth a datblygu yn fwy o her iddynt. Mae perygl y gallai unrhyw gyfnod hir o lymder ariannol yn y dyfodol niweidio'r meysydd hyn ymhellach, gan fod ag effeithiau canlyniadol i'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd.

1. Cyflwyniad

Mae gwasanaethau llyfrgell yn cyfrannu at gyflawni ystod o ganlyniadau Llywodraeth Cymru megis llythrennedd, sgiliau a dysgu, cynhwysiant digidol, tlodi, iechyd a lles. Mae'r ddarpariaeth mewn llyfrgelloedd yn rychwantu'r canlyniadau hyn, gan gynnig ystod o wasanaethau sy'n aml yn cefnogi dau ganlyniad neu ragor ar yr un pryd.

Mae safonau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn weithredol ers 2002, ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddangos eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwasanaethau llyfrgell, ac yn galluogi gwasanaethau llyfrgell i ddangos eu bod yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Rhedai'r fframwaith cyntaf o 2002 hyd at 2005, a fframweithiau dilynol yn cwmpasu'r cyfnodau 2005-08, 2008-11 a 2011-14.

Cafodd pumed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC), ar gyfer y cyfnod 2014 hyd at 2017, ei ddatblygu gan LISU, ar y cyd â'r Ganolfan Rheoli Gwybodaeth ym Mhrifysgol Loughborough, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Datblygwyd y fframwaith hwn i ymgorffori nid yn unig ddangosyddion perfformiad meintiol, ond hefyd nifer o fesurau ansoddol yn seiliedig ar ganlyniadau er mwyn cynorthwyo awdurdodau llyfrgell i ddangos eu gwerth a'u heffaith. Roedd pob fframwaith unigol wedi esblygu i adlewyrchu anghenion a disgwyliadau newidiol defnyddwyr llyfrgelloedd cyhoeddus. Yn ogystal â chyflawni dyletswyddau statudol, mae gan fframwaith y Safonau rôl werthfawr wrth gefnogi datblygiad gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus.

Mae'r fframwaith yn cynnwys 18 hawl graidd a 16 dangosydd ansawdd i fonitro i ba raddau y mae'r gwasanaethau llyfrgell yn cyflawni eu buddion posibl i bobl Cymru. Nid yw'r mapio rhwng buddion a dangosyddion yn syml, gan nad oes modd cael mesur uniongyrchol o ganlyniadau ac effeithiau ar lefel y gwasanaeth cyfan, ond yn hytrach rhaid eu casglu o ddangosyddion ehangach.

Cyflwynwyd y fframwaith hwn yn ystod cyfnod o gyfyngu ar gyllidebau, ac mae'n rhoi cyfleoedd i lyfrgelloedd ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd arloesol yn ogystal â rhoi'r hyblygrwydd iddynt wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Datblygwyd y fframwaith drwy ddefnyddio amrywiaeth o fodelau ansawdd perfformiad yn sail i greu fframwaith unigryw i Gymru, gan ymgorffori mesurau mewnbyn ac allbyn, yn ogystal ag elfennau ansoddol ac effaith/canlyniad.

Arweinir y broses monitro ac asesu gan MALD: Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, a bydd yn dilyn y patrwm a sefydlwyd mewn fframweithiau blaenorol. Mae pob awdurdod yn cyflwyno ffurflen flynyddol bob blwyddyn, ac yna mae adolygydd annibynnol a grŵp cyfeirio cydweithwyr yn craffu arnynt i sicrhau eu bod yn gyflawn. Llunnir adroddiad blynyddol ar gyfer pob awdurdod, a'i gyhoeddi trwy wefan MALD, a chynhelir seminar adborth yn rhoi trosolwg o ganlyniadau pob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried tair blynedd y pumed fframwaith yn ei gyfanrwydd, gan roi crynodeb o berfformiad ledled Cymru, a chymharu â'r fframwaith blaenorol lle bo modd.

2. Cyd-destun llyfrgelloedd Cymru

Mae yna 22 awdurdod llyfrgell yng Nghymru, a'r rheiny yn amrywio o ran maint yn ddaearyddol yn ogystal â phoblogaeth, o ran natur wledig neu drefol, ac o ran nodweddion demograffig. Mae ffactorau fel y rhain oll yn effeithio ar natur y gwasanaethau llyfrgell sydd eu hangen ac ar weithredu'r gwasanaethau hynny. Yn ystod y fframwaith presennol cafwyd hinsawdd o gyfyngu ar gyllidebau gan awdurdodau lleol, gan effeithio'n anochel ar adnoddau llyfrgelloedd. Mae awdurdodau llyfrgell wedi datblygu amrywiaeth o ddulliau i gynnal y ddarpariaeth, gan gynnwys mwy o ddefnydd ar wirfoddolwyr, cyflwyno llyfrgelloedd wedi'u cefnogi a'u rheoli gan y gymuned, ymgysylltu â nifer o bartneriaid i gynnal rhaglenni a gwasanaethau, ac mewn rhai achosion trosglwyddo i ymddiriedolaeth. Yn eu ffurflenni blynyddol i Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i awdurdodau llyfrgell roi amrywiaeth o ddata cyd-destun.

2.1. Nodweddion y boblogaeth

Yn 2016-17, cyfanswm poblogaeth Cymru oedd 3,096,298, dim ond 0.4% yn uwch nag ar ddechrau'r fframwaith. Roedd 17.9% o'r boblogaeth o dan 16 oed, o'i gymharu â 19.2% ar ddechrau'r fframwaith. Mae cryn amrywio rhwng awdurdodau yn y canran hwn, o 9.4% sydd o dan 16 oed yn Sir Ddinbych i 20.9% yng Ngwynedd. Mae cyfran y boblogaeth sy'n gallu darllen Cymraeg yn amrywio rhwng 5.9% ym Mlaenau Gwent i 65.4% yng Ngwynedd, a thrwyddi draw mae wedi cynyddu o 16.1% i 16.6% dros gyfnod y fframwaith.

2.2. Ystad y llyfrgelloedd

Ar y cyfan, mae cyfanswm nifer y manau gwasanaeth sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy sy'n sail i ffurflenni blynyddol yr awdurdodau, wedi gostwng o 236 yn 2014-15 i 228 yn 2016-17. O fewn hyn, mae rhai hanesion llwyddiannus, fodd bynnag, wrth i dri awdurdod gynyddu nifer eu manau gwasanaeth. Mae pum awdurdod wedi cadw niferoedd eu manau gwasanaeth drwy gael cymorth y gymuned (gweler isod), tra bod pedwar gwasanaeth wedi lleihau eu nifer. Mae 13 man gwasanaeth arall ar agor am lai na 10 awr yr wythnos, a hynny heb newid yn ystod y fframwaith hwn, ac mae'r gwasanaethau llyfrgell wedi cynnal 35 o gerbydau llyfrgell deithiol a gwasanaeth cludo i'r cartref yn 2016-17, sef pump yn llai nag yn 2014-15. Roedd yr adroddiad ar y pedwerydd fframwaith yn 2014¹ wedi craffu ar y ddarpariaeth gwasanaeth llyfrgell deithiol gan nodi bod tri awdurdod wedi diddymu neu leihau eu gwasanaeth rhwng 2009 a Mawrth 2014. Yn ystod y pumed fframwaith cwtogodd pedwar awdurdod ar nifer y llyfrgelloedd teithiol a gynigir gan eu gwasanaeth ac adroddodd un awdurdod fod y gwasanaeth llyfrgell deithiol wedi'i ddiddymu.

Mae'r ffurflen flynyddol hefyd yn gofyn am fanylion llyfrgelloedd cymunedol, boed y rhain yn rhai wedi'u comisiynu, neu dan reolaeth y gymuned neu wedi'u cefnogi gan y gymuned, yn ogystal â gofyn am nifer y llyfrgelloedd cymunedol annibynnol, os gwyddys amdanynt. Caiff y modelau hyn eu defnyddio a'u diffinio gan CIPFA fel a ganlyn:

- Mae llyfrgelloedd *wedi'u comisiynu* yn rhai wedi'u hariannu'n llawn a'u comisiynu gan y cyngor ond fe'u gweithredir gan sefydliad cymunedol, menter gymdeithasol neu sefydliad cydfuddiannol nid-er-elw preifat, sydd un ai yn bodoli eisoes neu newydd ei

¹ D. Hywel E. Roberts, 2014, *Cynnal Gwasanaethau Gwerthfawr: Y Pedwerydd Fframwaith o Safonau ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2011-14: Dadansoddiad a throsolwg o berfformiadau awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru*, ar gael o ofyn amdano oddi wrth MALD, Llywodraeth Cymru

greu. Gall cynghorau gomisiynu i) llyfrgelloedd unigol neu ii) y gwasanaeth llyfrgell cyfan.

- Mae llyfrgelloedd *dan reolaeth cymunedau* wedi'u harwain gan y gymuned a'u gweithredu'n bennaf gan y gymuned, yn anaml gyda staff cyflogedig, ond yn aml gyda rhyw fath o gefnogaeth barhaus gan y cyngor ac yn aml yn dal i fod yn rhan o rwydwaith y llyfrgelloedd cyhoeddus.
- Mae llyfrgelloedd *wedi'u cefnogi gan y gymuned* yn rhai sydd wedi'u harwain a'u hariannu gan y Cyngor, ac fel arfer mae ganddynt staff cyflogedig proffesiynol sy'n cael cryn gymorth gan wirfoddolwyr.

Mae'r niferoedd hyn wedi codi dros gyfnod y fframwaith, a cheir y manylion yn Nhabl 1. Mae cynnwys mathau gwahanol y llyfrgelloedd cymunedol gyda gweddill y ffurflen flynyddol yn dibynnu a ydynt yn bodloni'r meini prawf a nodir yn *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru*². Yn gyffredinol, gellir cynnwys llyfrgelloedd cymunedol os ydynt yn cyflawni'r holl hawliau craidd, os ydynt yn cael lefel o gymorth y cytunwyd arni gan wasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol ac os oes ganddynt weithgarwch rhannu stoc, TGCh ac adnoddau, a staff cyflogedig am o leiaf rhan o'u horiau agor. Mae pum awdurdod llyfrgell nawr yn cynnwys data o gyfanswm o 31 llyfrgell gymunedol yn eu ffurflenni blynyddol, o'i gymharu â dau awdurdod yn cynnwys wyth llyfrgell o'r fath yn 2014-15. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn llyfrgelloedd cymunedol wedi'u comisiynu, sef bod ymddiriedolaeth annibynnol yn rhedeg y gwasanaethau.

Tabl 1 Llyfrgelloedd cymunedol

	2014-15	2015-16	2016-17
Llyfrgelloedd cymunedol ar agor am 10+ awr yr wythnos			
Llyfrgelloedd cymunedol wedi'u comisiynu	8	18	19
Llyfrgelloedd wedi'u cefnogi gan y gymuned	3	5	6
Llyfrgelloedd dan reolaeth gymunedau	9	8	14
Cyfanswm llyfrgelloedd cymunedol ar agor 10+ awr yr wythnos	20	31	39
Llyfrgelloedd cymunedol ar agor am lai na 10 awr yr wythnos			
Llyfrgelloedd cymunedol wedi'u comisiynu	-	-	-
Llyfrgelloedd wedi'u cefnogi gan y gymuned	2	-	3
Llyfrgelloedd dan reolaeth cymunedau	4	5	4
Cyfanswm llyfrgelloedd cymunedol ar agor am lai na 10 awr yr wythnos	6	5	7
Nifer y llyfrgelloedd cymunedol annibynnol	2	3	7
Nifer y llyfrgelloedd cymunedol wedi'u cynnwys yn y ffurflenni blynyddol	8	23	31

2.3. Adnoddau a defnyddio llyfrgelloedd

Nid yw'r pumed fframwaith ansawdd yn cynnwys dangosyddion ar gyfer stoc, benthyciadau neu aelodaeth o'r llyfrgell, ond cesglir y data amdanynt er mwyn rhoi cyd-destun ychwanegol. Mae cyfanswm y stoc benthycia wedi gostwng o 5,123,930 eitem ym mis Ebrill 2014 i 4,950,973 eitem ar ddechrau blwyddyn olaf y fframwaith. Mae nifer aelodau llyfrgell

² Ar gael yn <http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-cy.pdf>

hefyd wedi gostwng, o 1.49 miliwn i 1.44 miliwn, ond mae'n dal yn uchel ar 46% o'r boblogaeth. Mae nifer y llyfrau sy'n cael eu benthg yn flynyddol wedi gostwng dros gyfnod y fframwaith yn yr holl awdurdodau, o gyfanswm o 12.0 miliwn i 10.3 miliwn ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd, sy'n cyfateb i 3.34 benthyciad y person bob blwyddyn. Mae benthyciadau clyweledol a lawrlwytho llyfrau electronig wedi parhau'n sefydlog ledled y wlad gyfan, gyda 10 gwasanaeth llyfrgell yn adrodd am gynnydd o hyd at 60%.

3. Hawliau craidd


Cyflwynwyd casgliad o hawliau craidd llyfrgell i ddinasyddion Cymru yn *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*³, sef y fframwaith datblygu strategol i lyfrgelloedd Cymru ar gyfer 2012-16. Ymgorfforwyd y rhain yn ffurfiol yn y pumed fframwaith ansawdd hwn, ynghyd â nifer fechan o hawliau ychwanegol. Gofynnwyd i awdurdodau llyfrgell hunanasesu i ba raddau maent yn cydymffurfio â phob un o'r hawliau craidd hyn, a rhoddwyd canllawiau ynghylch pa elfennau y dylid eu hystyried er mwyn medru cyflawni'r hawliau yn llawn, yn rhannol neu eu methu. Daeth hi'n glir o flwyddyn gyntaf y fframwaith fod rhai awdurdodau yn beirniadu eu hunain yn fwy hallt nag eraill, a bu i'r Grŵp Cyfeirio addasu nifer fechan o'r asesiadau a adroddwyd.

3.1. Cwsmeriaid a chymunedau

Mae'r tair hawl graidd yn Cwsmeriaid a chymunedau oll wedi'u cyflawni'n gymharol dda (*Ffigwr 1*), gyda rhwng 20 a 22 awdurdod yn cyflawni'r hawliau hyn yn llawn ym mhob blwyddyn y fframwaith. Yn benodol, mae'r holl awdurdodau wedi darparu mynediad i ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, datblygiad a lles personol, a chyfranogiad cymunedol yn nwy flynedd ddiwethaf y fframwaith.

Roedd yr awdurdodau hynny oedd yn rhannol gyflawni'r hawl staff (HG 1) fel rheol yn dweud mai lefelau staffio isel, yn enwedig lefelau staff cymwysedig, oedd y rheswm dros beidio â chyflawni hon yn llawn. Roedd awdurdodau nad oeddynt yn cyflawni HG 2 a HG 3 yn llawn fel rheol yn sôn mai'r rheswm dros hynny oedd nad oedd modd cynnal digwyddiadau, yn enwedig mewn canghennau bychain.

Ffigwr 1 Hawliau craidd a gyflawnwyd (HG= hawl graidd)




- HG 1. Sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodys a chymwys wrth law i helpu.
- HG 2. Cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu, mwynhad a galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.
- HG 3. Darparu mynediad i ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol.

³ Ar gael o <http://gov.wales/docs/drah/publications/111104librariesinspirecy.pdf>

“Mae ymuno â'r grŵp wedi bod yn gyfle ffantastig ...Cyn hynny ro'n i'n sownd yn y tŷ ... mae'n rhoi trefn i fy mywyd, a hynny'n gwneud i mi deimlo'n well amdanaf fy hun... Alla i ddim coelio gymaint rwyf wedi newid”

3.2. Mynediad i bawb

Ffigwr 2 Hawliau craidd a gyflawnwyd (HG= hawl graidd)



HG 4. Llyfrgelloedd ar agor i holl aelodau eu cymunedau.

HG 5. Yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy.


HG 6. Darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas.

HG 7. Darparu adnoddau gwybodaeth i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.

Mae'r pedair hawl graidd yn *Mynediad i bawb* hefyd wedi cael eu cyflawni'n dda yn gyson drwy gydol y fframwaith ac nid yw'r un awdurdod llyfrgell wedi methu â chyflawni'r hawliau hyn yn unrhyw un o'r tair blynedd (*Ffigwr 2*). Yn ogystal â hyn, mae'r holl awdurdodau wedi cynnig y gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig yn ogystal ag aelodaeth am ddim drwy gydol y fframwaith. Cyflawnwyd yn llawn y ddwy hawl graidd arall (“ar agor i holl aelodau eu cymunedau” a “Darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas”) gan yr holl awdurdodau yn y ddwy flynedd ddiweddaraf.

3.3. Dysgu am oes

Ffigwr 3 Hawliau craidd a gyflawnwyd (HG= hawl graidd)



HG 8. Benthycu llyfrau am ddim.

HG 9. Cynnig mynediad am ddim i wybodaeth.

HG 10. Darparu defnydd am ddim o'r Rhyngwrwd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi.

HG 11. Cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd.

HG 12. Darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau newidiol cyhoeddi.

HG 13. Rhannu eu catalogau, er mwyn medru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru.


Mae'r holl awdurdodau wedi cynnig adnoddau gwybodaeth ar-lein yn rhad ac am ddim am 24 awr y dydd; wedi darparu mynediad i adnoddau o safon mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn Gymraeg, gan adlewyrchu'r newid mewn ffurfiau cyhoeddi; a rhannu eu catalogau er mwyn galluogi gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru drwy gydol y fframwaith (*Ffigwr 3*).

Er nad oes unrhyw wasanaeth llyfrgell yn codi tâl am geisiadau benthyg o fewn yr awdurdod ei hun, mae rhai wedi dechrau codi tâl ar gwsmeriaid am fenthyciadau rhyng-lyfrgell yng Nghymru; tybir bod y rhain ond yn rhannol fodloni'r hawl graidd am fynediad am ddim i wybodaeth.

Gwelwyd gwelliant dros y tair blynedd yn y ddarpariaeth defnydd am ddim o'r rhyngwrwd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi, gyda dim ond un awdurdod ond yn rhannol gyflawni'r hawl graidd hon yn y flwyddyn ddiweddaraf – o'i gymharu â phedwar awdurdod yn 2014-15 a thri yn 2015-16. Fel rheol nid oedd yr awdurdodau hynny sy'n rhannol gyflawni'r hawl hon yn cynnig Wi-Fi yn eu llyfrgelloedd i gyd – er eu bod oll wedi nodi eu bod yn gweithio ar yr agwedd hon yn eu darpariaeth, ac yn 2016-17 un awdurdod yn unig a nododd nad oedd Wi-Fi yn dal ar gael drwy eu holl fannau gwasanaeth sefydlog.

3.4. Arweinyddiaeth a datblygu

Ffigwr 4 Hawliau craidd a gyflawnwyd (HG= hawl graidd)



HG 14. Hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau.

HG 15. Ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

HG 16. Gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.

HG 17. Darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.

HG 18. Darparu proses gwyno glir, amserol a thryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le

Mae'r holl awdurdodau wedi darparu proses gwyno glir, amserol a thryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le drwy gydol y fframwaith (Ffigwr 4). Mewn gwrthgyferbyniad, darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned, fu'r hawl graidd anoddaf i'r awdurdodau ei chyflawni'n llawn, er y cafwyd peth gwelliant dros gyfnod y fframwaith. Yn gyffredinol, roedd awdurdodau a oedd yn cyflawni'r hawl hon yn rhannol neu ddim o gwbl yn nodi bod y strategaeth llyfrgell wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd neu wedi'i datblygu ond nad oedd eto ar gael ar-lein.

Yr unig hawl graidd arall nad oedd rhai awdurdodau wedi llwyddo i'w chyflawni dros gyfnod y fframwaith yw'r un yn ymwneud ag ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol. Ni lwyddodd un awdurdod i gyflawni'r hawl hon yn y flwyddyn ddiweddaraf – o'i gymharu â dau awdurdod yn 2014-15 ac yn 2015-16. Mae'r holl awdurdodau yn adrodd ymgynghori â chwsmeriaid, ond mewn rhai achosion mae hyn wedi digwydd yn ad-hoc, neu wedi'i gyfyngu i faterion penodol.


4. Dangosyddion ansawdd

Mae manylion yr 16 dangosydd ansawdd a'r targedau cysylltiedig i'w cael yn Atodiad 1.

Mae gan saith o'r dangosyddion ansawdd sydd yn y fframwaith dargedau ffurfiol y disgwylir i awdurdodau eu cyflawni; mewn rhai achosion mae'r dangosydd yn cynnwys nifer o dargedau unigol y mae'n rhaid i awdurdodau eu cyrraedd er mwyn cyflawni'r dangosydd ansawdd cyffredinol yn llawn. Os yw awdurdod yn cyrraedd rhai o'r targedau unigol ond nad yw'n cyrraedd un neu ragor o'r targedau unigol eraill, yna cânt eu graddio i fod wedi cyflawni'r dangosydd ansawdd cyffredinol yn rhannol. Ar gyfer y dangosyddion hyn, bydd y siartiau yn yr adrannau canlynol yn dangos i ba raddau y mae awdurdodau llyfrgell wedi cyflawni'r dangosydd ansawdd yn llawn neu'n rhannol, yn ogystal ag i ba raddau y cyflawnwyd unrhyw dargedau unigol sy'n cyfrannu at y dangosydd ansawdd cyffredinol.

Ar y cyfan, mae deg awdurdod wedi cyflawni mwy o ddangosyddion ansawdd yn llawn yn y flwyddyn ddiweddaraf nag yn 2014-15, mae saith awdurdod wedi cyflawni llai o ddangosyddion yn llawn yn 2016-17 o'i gymharu â 2014-15, a bu i'r pum awdurdod arall gyflawni'n llawn yr un nifer o ddangosyddion ansawdd ym mlwyddyn gyntaf a blwyddyn olaf y fframwaith. Er gwaethaf amrywiadau dros gyfnod y fframwaith, dim ond un awdurdod sydd wedi cyflawni pob un o'r saith dangosydd ansawdd yn llawn yn 2016-17, o'i gymharu â dim un awdurdod yn 2014-15 a dau awdurdod yn 2015-16.

Ffigwr 5 Dangosyddion Ansawdd sydd â thargedau sydd wedi'u cyflawni'n llawn



Mae'r * yn nodi'r cyfartaledd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Mae Ffigwr 5 yn dangos lefel cyflawni cyffredinol y dangosyddion ansawdd sydd â thargedau dros gyfnod y fframwaith ac mae'n dangos rhai newidiadau bychain dros y tair blynedd. Ar y cyfan:

- mae nifer cyfartalog y dangosyddion ansawdd sydd wedi'u cyflawni'n llawn wedi aros yn gymharol sefydlog – a hynny ar tua 4 o'r 7 ym mhob un o'r tair blynedd
- mae nifer cyfartalog y dangosyddion ansawdd sydd wedi'u rhannol gyflawni'n wedi gostwng dros gyfnod y fframwaith, gan fod yn 2.1 yn y flwyddyn ddiweddaraf – o'i gymharu â 2.4 yn 2014-15


- mae nifer cyfartalog y dangosyddion ansawdd nad ydynt wedi'u cyflawni wedi cynyddu fymryn dros gyfnod y fframwaith ac ar hyn o bryd mae'n 0.8

Gan barhau o'r pedwerydd fframwaith, un o'r prif feysydd cryfder yw DASLICC 5 sy'n ymwneud â lleoliad manau gwasanaeth gyda'r holl awdurdodau yn cyflawni'r targed yn llawn ym mhob un o dair blynedd y pumed fframwaith.

4.1. DASLICC 1 Gwneud gwahaniaeth

Roedd gofyn adrodd ar ddata am y dangosydd hwn unwaith yn ystod y fframwaith. Nid oedd dau awdurdod wedi cynnal arolygon ar effaith, felly mae'r ffigyrau isod yn seiliedig ar ddata gan 20 gwasanaeth llyfrgell.

Ffigwr 6 Canran y defnyddwyr yn cytuno â'r datganiadau effaith



Mae'r * yn dangos y canran ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r ystod ar draws awdurdodau

Mae Ffigwr 6 yn dangos effaith defnyddio llyfrgell ar fywydau pobl ac yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng awdurdodau, gyda'r bar glas yn cynrychioli'r amrediad dros gyfnod y fframwaith. Gofynnwyd i awdurdodau adrodd y wybodaeth hon unwaith yn unig yn ystod y fframwaith, ac felly er bod y data a roddir yn Ffigwr 6 wedi'i adrodd yn 2016-17 eto gall fod wedi'i gasglu yn unrhyw un o'r tair blynedd. Mae cyfran yr oedolion sy'n nodi bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau yn amrywio o 36% i 97% ar gyfer yr awdurdodau unigol, gyda ffigwr o 80% ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; fodd bynnag, mae'n werth nodi mai dim ond tri awdurdod a adroddodd gyfran is na 70%. Mae'n galonogol bod cyfran yr oedolion a nododd fod y llyfrgell yn lle diogel a chroesawgar yn amrywio o 93% hyd at 100% i awdurdodau unigol, gyda ffigwr o 97% ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.

“Mae jest cerdded drwy ddrysau'r llyfrgell yn gwneud i mi deimlo'n well – mae'n hafan a noddfa i mi.”

Mae Ffigwr 6 hefyd yn dangos y canlynol:

- Ledled Cymru yn ei chyfanrwydd, mae 79% o blant 7 i 16 oed yn credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau, er bod hyn yn amrywio o 58% i 98% rhwng yr awdurdodau


- Ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd, mae 91% o blant 7 i 16 oed yn credu bod y llyfrgell wedi eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau.

*“Mae fy merch wedi bod yn dod i'r Llyfrgell ers pan oedd yn fabi. Mae ganddi nawr oed darllen 8/9 oed a dim ond 5 oed yw hi. Mae'r llyfrgellwyr wedi bod yn wych, yn barod i helpu ac yn amyneddgar!
Diolch yn fawr.”*

4.2. DASLICC 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid

Roedd rhaid darparu data am y dangosydd hwn unwaith yn ystod y fframwaith. Ni chynhaliodd dau awdurdod arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid, felly mae'r ffigyrau isod yn seiliedig ar ddata o 20 gwasanaeth llyfrgell.

Ffigwr 7 Canran y defnyddwyr bodlon



Mae * yn dangos y canran ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Mae Ffigwr 7 yn dangos lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid drwy gydol y fframwaith, ac yn dangos y canlynol:

- Mae cyfran yr oedolion sy'n nodi bod y llyfrgell yn 'dda' neu'n 'dda iawn' yn gyffredinol yn amrywio o 92% i 100% ledled yr awdurdodau gyda ffigwr calonogol o 97% ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd
- Er bod lefelau staff ar hyn o bryd yn bryderus o isel, mae cyfran yr oedolion sy'n credu bod safon y gofal cwsmeriaid yn 'dda' neu'n 'dda iawn' yn amrywio o 90% i 100%, gan roi ffigwr o 97% ledled Cymru yn ei chyfanrwydd
- Mae cyfran yr oedolion a deimlai fod y dewis o lyfrau yn 'dda' neu'n 'dda iawn' yn amrywio'n ehangach rhwng awdurdodau, ac nid yw hynny'n syndod efallai o gofio'r cyfyngiadau presennol ar gyllidebau llyfrau, a'r ffigwr cyffredinol ar gyfer Cymru yw 89%. Fodd bynnag, mae hyn yn cymharu â ffigwr o 96% yn y pedwerydd fframwaith, gan amlygu'r gostyngiad yn y buddsoddiad yn y maes hwn yn ystod y fframwaith presennol.


“Rhan fach ond bwysig o’m bywyd, a lle mawr mewn tref fach ... ac mae’r croeso bob amser yn gynnes yno.”

Y sgôr cyfartalog a roddwyd gan blant 7 i 16 oed i’r llyfrgell maent yn ei defnyddio dros gyfnod y fframwaith oedd 9.2 allan o ddeg ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd, gan amrywio o 8.6 i 10 mewn awdurdodau unigol.

4.3. DASLICC 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol

Mae pum targed i’r dangosydd hwn. Yn Ffigur 8 dangosir a yw awdurdodau yn gyffredinol wedi cyflawni’r dangosydd ansawdd yn llawn, yn rhannol neu wedi ei fethu wrth gefnogi datblygiad unigolion, ynghyd â’r targedau ategol sy’n cyfrannu at y dangosydd ansawdd.

Ffigur 8 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol – targedau a gyflawnwyd



“Mae dysgu sut i bori’r rhyngwrwyd wedi agor fy mywyd, gallaf chwilio am unrhyw wybodaeth a’r wythnos diwethaf, dysgais sut i newid fy nghyflenwr nwy a thrydan ac ni allaf gredu faint o arian a arbedais, mae’r llyfrgell yn arbed arian i mi drwy’r amser.”

- Mae’r holl awdurdodau wedi cyflawni’r llawn y targedau ar gyfer cymorth TGCh (sef cymorth sylfaenol i ddefnyddio’r seilwaith TGCh a gynigir [gan gynnwys Wi-Fi] a

defnyddio'r rhychwant o adnoddau gwybodaeth electronig sydd ar gael) a chymorth e-lywodraeth (cymorth i ddefnyddwyr i gael mynediad at adnoddau e-lywodraeth lleol a chenedlaethol) yn y ddwy flynedd ddiweddaraf


- Yn 2014-15 un awdurdod yn unig a fethodd â chyflawni unrhyw un o'r targedau yn ymwneud â chymorth ar gyfer datblygiad unigol a hynny oherwydd nad oedd un o'u manau gwasanaeth oedd ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos yn gallu cynnig y cymorth perthnasol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod gwelliant wedi bod ar hyn a'u bod wedi cyflawni'r holl dargedau yn nwy flynedd ddiwethaf y fframwaith
- Ym mhob blwyddyn y fframwaith roedd o leiaf un awdurdod heb gyflawni'r targedau ar gyfer hyfforddiant sgiliau (hyfforddiant i wella sgiliau digidol, llythrennedd a rhifedd), llythrennedd gwybodaeth (sesiynau llythrennedd gwybodaeth i ddefnyddwyr) a datblygu darllenwyr (rhaglenni/gweithgareddau datblygu darllenwyr i oedolion a phlant)
- Gwelwyd mai hyfforddiant i wella sgiliau digidol, llythrennedd a rhifedd oedd y targed anoddaf i'w gyflawni, a phum awdurdod heb gyflawni'r targed hwn yn 2016-17, o'i gymharu â chwe awdurdod yn 2014-15 a phedwar awdurdod yn 2015-16
- Nid oedd dau awdurdod wedi cynnal sesiynau llythrennedd gwybodaeth i ddefnyddwyr yn eu holl fannau gwasanaeth sydd ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos yn unrhyw un o dair blynedd y fframwaith

Diffyg lle priodol mewn canghennau llai o faint ac argaeledd staff yw'r rhesymau a roddir amlaf dros fethu'r targedau hyn.

“Mae'r sesiynau hyn yn wych... maen nhw wedi rhoi'r hyder i mi ddarllen llawer mwy iddi na fyddwn fel arall.”

4.4. DASLICC 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr

Ffigwr 9 Nifer yn mynychu sesiynau hyfforddiant fesul 1,000 o'r boblogaeth



Mae * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Mae 2014-15 yn seiliedig ar 21 awdurdod; 2015-16 ar 19 awdurdod; 2016-17 ar 20 awdurdod

Dros dair blynedd y fframwaith gofynnwyd i awdurdodau roi manylion ynghylch nifer y defnyddwyr sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu ymlaen llaw gan y llyfrgell a nifer y cwsmeriaid sydd wedi cael cymorth hyfforddiant anffurfiol, gyda Ffigwr 9 yn dangos amrediad a chyfanswm y mynychwyr fesul pob 1,000 o'r boblogaeth am bob blwyddyn. Mae amrywio mawr rhwng awdurdodau ym mhob blwyddyn; fodd bynnag, mae nifer y mynychwyr mewn sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu ymlaen llaw wedi cynyddu'n raddol bob blwyddyn nes bod 59 o fynychwyr am bob 1,000 o'r boblogaeth yn y flwyddyn ddiweddaraf ledled Cymru gyfan o'i gymharu â 51 yn 2015-16 a 33 yn 2014-15.


Cafwyd peth amrywio yn nifer y cwsmeriaid a gafodd gymorth drwy hyfforddiant anffurfiol, gyda ffigwr o 219 fesul pob 1,000 o'r boblogaeth yn y flwyddyn ddiweddaraf, o'i gymharu â 242 yn 2015-16 a 161 yn 2014-15 ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.

4.5. DASLICC 5 Lleoliad mannau gwasanaeth

Mae'r dangosydd ansawdd sy'n ymwneud â lleoliad mannau gwasanaeth yn cynnig arweiniad ynghylch cyfran y boblogaeth a ddylai fyw o fewn y pellter a nodwyd o fan gwasanaeth sefydlog neu arhosfan llyfrgell deithiol yn dibynnu ar ddwysedd y boblogaeth. Pan fo dwysedd y boblogaeth yn 20 person neu fwy i bob hectar, dylai o leiaf 95% fyw o fewn dwy filltir o fan gwasanaeth sefydlog. I'r awdurdodau hynny sydd â dwysedd poblogaeth rhwng 1.1 a 19.9 person i bob hectar, dylai 75% fyw o fewn 2.5 milltir (neu 10 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) o fan gwasanaeth sefydlog neu o fewn chwarter milltir i arhosfan llyfrgell deithiol. I'r awdurdodau hynny sydd â dwysedd poblogaeth o 1.0 person neu lai i bob hectar, dylai o leiaf 70% fyw o fewn 3 milltir (neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) o fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn chwarter milltir i arhosfan llyfrgell deithiol. Mae'r holl awdurdodau wedi cyflawni'r targed yn llawn ym mhob blwyddyn y fframwaith.

4.6. DASLICC 6 Defnyddio'r llyfrgell

Ffigwr 10 Ymweliadau fesul bob 1,000 o'r boblogaeth



Mae * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Mae'r dangosydd ansawdd hwn yn cynnwys pob agwedd ar ddefnyddio llyfrgell, ymweliadau corfforol a rhith-ymweliadau, ynghyd â nifer aelodau llyfrgell a benthycwyr gweithredol. Dengys Ffigwr 10 gyfanswm nifer yr ymweliadau corfforol fesul pob 1,000 o'r boblogaeth drwy gydol y fframwaith ac mae'n dangos bod y ffigwr wedi gostwng ychydig bob blwyddyn – er nad o bosibl ar gyfradd mor gyflym ag y disgwyliid, o ystyried bod e-adnoddau yn tyfu. Er


gwaethaf y gostyngiad mewn ymweliadau corfforol yn ystod cyfnod y fframwaith, mae'n bwysig nodi, yn gyffredinol, fod cyfran fawr yr oedolion yn credu bod y dewis o lyfrau naill ai yn 'dda' neu'n 'dda iawn' – sef ar 89% ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd yn y pumed fframwaith (*Ffigwr 7*).

Casglwyd data hefyd ar nifer y benthyciadau llyfrau ynghyd â benthyciadau clyweledol a benthyciadau/lawrlwythiadau electronig er nad oedd unrhyw dargedau wedi'u gosod ac nid yw'r data hwn yn rhan o'r dangosydd ansawdd ffurfiol. Dros gyfnod y fframwaith, roedd nifer y llyfrau a fenthycwyd wedi gostwng yn raddol, ac ar hyn o bryd mae'n 13.7% yn is nag ar ddechrau'r pumed fframwaith. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth mawr rhwng awdurdodau:

- yn 2016-17 roedd nifer y benthyciadau llyfrau fesul pob 1,000 o'r boblogaeth yn amrywio o 1,741 i 5,594, gan roi ffigur cyffredinol o 3,229
- yn 2014-15 roedd nifer y benthyciadau llyfrau fesul pob 1,000 o'r boblogaeth yn amrywio o 2,332 i 5,778, sef 3,887 ar gyfer Cymru yn gyffredinol
- yn 2016-17 nifer y benthyciadau electronig/lawrlwythiadau clyweledol fesul pob 1,000 o'r boblogaeth oedd 301 ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd – o'i gymharu â 299 yn 2014-15

Dros gyfnod y pumed fframwaith gofynnwyd i awdurdodau roi manylion ynghylch nifer y benthycwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn, ac mae Ffigwr 11 yn dangos yr amrediad ar gyfer awdurdodau gwahanol Cymru a'r ffigur ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd ym mhob un o'r tair blynedd. Gostyngodd nifer y benthycwyr gweithredol fesul pob 1,000 o'r boblogaeth ledled Cymru ar ddechrau'r fframwaith; fodd bynnag, mae wedi sefydlogi rhywfaint ers hynny ac mae bellach yn 163 yn y flwyddyn ddiweddaraf – o'i gymharu â 164 yn 2015-16 a 170 yn 2014-15. Mae Ffigwr 11 hefyd yn dangos fod yr amrediad wedi lleihau yn y flwyddyn ddiweddaraf. Noder nad yw nifer y benthycwyr gweithredol yn cynnwys yr aelodau hynny sydd ond yn defnyddio'r llyfrgell ar gyfer adnoddau megis y cyfleusterau TG neu i fynychu digwyddiadau a gweithgareddau'r llyfrgell a dyma'r diffiniad a ddefnyddir gan CIPFA yn eu hystadegau llyfrgelloedd cyhoeddus.

Ffigwr 11 Benthycwyr gweithredol fesul bob 1,000 o'r boblogaeth




Mae'r * yn dangos y ffigur ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Mae hefyd yn werth nodi bod y ffigyrau defnyddio, gan gynnwys nifer y benthycwyr gweithredol, yn aml wedi'u heffeithio'n negyddol gan ffactorau megis cau manau gwasanaeth, hyd yn oed pan ydynt ar gau dros-dro yn unig i adnewyddu, neu wrth gyflwyno

System Rheoli Llyfrgell (LMS) newydd sy'n aml yn cynnwys glanhau'r data. Mewn cyferbyniad, gall ailagor llyfrgell yn dilyn ei hadnewyddu neu gydleoli llyfrgell â gwasanaeth arall yn aml gael effaith gadarnhaol ar y ffigyrau defnyddio. Disgwylir i fenthyciadau electronig/lawrlwythiadau clyweledol fod yn un agwedd ar y gwasanaeth llyfrgell a fydd yn ehangu a bydd yn ddiddorol gweld i ba raddau y bydd yn tyfu yn ystod y fframwaith nesaf.

4.7. DASLICC 7 Cyfanswm nifer defnyddwyr yn nigwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell

Ffigwr 12 Y nifer mewn digwyddiadau fesul 1,000 o'r boblogaeth



Mae * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Mae Ffigwr 12 yn dangos amrediad a nifer cyffredinol y defnyddwyr yn nigwyddiadau'r llyfrgell fesul pob 1,000 o'r boblogaeth ym mhob blwyddyn o'r fframwaith ac mae'n amlygu'r gwahaniaeth mawr rhwng awdurdodau. Dylanwadir ar hyn hefyd gan allu'r llyfrgell i gynnal digwyddiad yn ogystal â phoblogrwydd y digwyddiadau hynny. Arwydd calonogol o bosibl yw nad ymddengys fod y pwysau cyffredinol ar gyllidebau llyfrgell wedi effeithio ar ddigwyddiadau llyfrgell gan fod y nifer cyffredinol sy'n eu mynychu fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi codi ychydig dros gyfnod y fframwaith, a'i fod yn 253 ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd yn y flwyddyn fwyaf diweddar – o'i gymharu â 192 yn 2014-15. Mae hwn yn un maes lle mae cefnogaeth gwirfoddolwyr a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn cael effaith ar yr hyn y gellir ei gyflawni.


Y "grŵp bach hwn o lyfrgarwyr" a ddisgrifwyd yn "oriau mwyaf braf" ei hwythnos.

4.8. DASLICC 8 Deunydd darllen cyfoes

Mae'r dangosydd hwn yn cynnwys dau darged y mae'n rhaid eu cyflawni i fodloni DA8 yn llawn – sef isafswm gwariant fesul pen ar dderbyniadau NEU isafswm nifer y derbyniadau fesul pen; yn ogystal â tharged ar gyfer cyfradd adnewyddu.

Mae Ffigwr 13 yn cyflwyno darlun cyffredinol ynghylch a yw awdurdodau wedi cyflawni'n llawn, rhannol gyflawni neu fethu â chyflawni'r dangosydd ansawdd cyffredinol yn ymwneud â deunydd darllen cyfoes, yn ogystal â dangos a ydynt wedi bodloni'r targedau unigol sy'n cyfrannu at y dangosydd ansawdd cyffredinol.

Ffigwr 13 Deunydd darllen cyfoes – targedau a gyflawnwyd




- Roedd pum awdurdod wedi cyflawni'n llawn y dangosydd ansawdd cyffredinol ym mhob un o dair blynedd y fframwaith
- Cyflawnwyd y dangosydd ansawdd yn llawn mewn dwy o'r tair blynedd gan bedwar awdurdod arall.
- Roedd un awdurdod wedi methu â chyflawni unrhyw un o'r targedau yn ymwneud â deunydd darllen cyfoes drwy gydol y fframwaith
- Cafwyd gostyngiad yn y flwyddyn ddiweddaraf, gan na lwyddodd saith awdurdod i gyflawni'r dangosydd ansawdd ar ddeunydd darllen cyfoes – o'i gymharu â phedwar awdurdod yr un yn 2014-15 a 2015-16

Gan edrych ar bob elfen yn ei thro, mae Ffigwr 14 yn dangos amrediad a lefel gyffredinol y derbyniadau fesul pob 1,000 o'r boblogaeth ym mhob blwyddyn ar gyfer holl awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru drwy gydol y fframwaith, a'r llinell solet yn cynrychioli'r targed o 243 eitem fesul pob 1,000 o'r boblogaeth. Ar y cyfan:

- Roedd llai na hanner yr holl awdurdodau wedi cyflawni'r targed hwn ym mhob blwyddyn y fframwaith – gyda deg awdurdod yn cyflawni'r targed hwn yn 2015-16, o'i gymharu ag wyth yn 2014-15 ac yn 2016-17
- Nid yw dau awdurdod a oedd yn cyflawni'r targed hwn yn 2014-15 bellach yn cyflawni'r targed yn y flwyddyn ddiweddaraf
- Mae dau awdurdod na lwyddodd i gyflawni'r targed yn 2014-15 wedi llwyddo i gael mwy na 243 o dderbyniadau fesul pob 1,000 o'r boblogaeth yn y ddwy flynedd ers hynny
- Roedd chwe awdurdod wedi cyflawni'r targed ym mhob un o dair blynedd y fframwaith

- Mae cyfanswm nifer y derbyniadau fesul pob 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer Cymru yn is na lefel y targed ym mhob blwyddyn y fframwaith, gan fod yn 202 yn y flwyddyn ddiweddaraf – o'i gymharu â 221 yn 2014-15

Ffigwr 14 Derbyniadau fesul 1,000 o'r boblogaeth




Mae * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau. Y llinell solet yw'r targed o 243 o dderbyniadau fesul 1,000 o'r boblogaeth

Mae Ffigwr 15 yn dangos amrediad a chyfanswm y gwariant deunyddiau fesul pob 1,000 o'r boblogaeth yng Nghymru dros gyfnod y fframwaith. Ar y cyfan:

- Mae awdurdodau wedi'i chael yn anoddach cyflawni'r targed gwario o £2,180 fesul pob 1,000 o'r boblogaeth ar ddeunyddiau na'r targed derbyniadau, gyda dau awdurdod yn unig yn cyflawni hyn ym mhob un o dair blynedd y fframwaith
- Methodd 16 awdurdod â chyflawni'r targed hwn ym mhob un o dair blynedd y fframwaith
- Llwyddodd un awdurdod i gyflawni'r targed yn 2014-15 ac yn 2015-16 ond wedi methu â gwneud hynny yn y flwyddyn ddiweddaraf
- Mae dau awdurdod nad oedd wedi cyflawni'r targed ym mlwyddyn gyntaf y fframwaith wedi gwneud hynny yn y ddwy flynedd ers hynny

Ffigwr 15 Gwariant ar ddeunyddiau fesul pob 1,000 o'r boblogaeth



Mae'r * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau. Y llinell solet yw'r targed o wario £2,180 ar ddeunyddiau am bob 1,000 o'r boblogaeth

Yn ogystal â hyn, amlyga Ffigwr 15 yr ystod eang rhwng awdurdodau drwy gydol y fframwaith, a gwelir bod cyfanswm y gwariant fesul pen y boblogaeth gan lyfrgelloedd Cymru wedi symud ymhellach i ffwrdd o'r targed bob blwyddyn, hyd nes yn 2016-17 roedd hyn yn £1,673 o'i gymharu â'r targed o £2,180. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm gwariant ar ddeunyddiau ar gyfer Cymru o £1,828 fesul pob 1,000 o'r boblogaeth yn 2014-15.


Mae'n werth nodi'r canlynol:

- Dau awdurdod yn unig sydd wedi llwyddo i gyflawni'r ddau darged yn ymwneud â gwariant deunyddiau a derbyniadau cyffredinol ym mhob un o dair blynedd y fframwaith
- Mae un awdurdod arall wedi llwyddo i gyflawni'r ddau darged yn y ddwy flynedd ddiweddaraf
- Llwyddodd un awdurdod i gyflawni'r ddau darged yn y ddwy flynedd gyntaf ond methodd â gwneud hynny eto yn 2016-17
- Mae hanner yr holl awdurdodau wedi methu â chyflawni'r ddau darged drwy gydol y fframwaith

Mae rhan olaf y dangosydd ansawdd sy'n ymwneud â deunydd darllen cyfoes yn cyfateb i'r gyfradd adnewyddu – sef canran y stoc sydd wedi'i brynu yn ystod y flwyddyn, wedi'i gyfrifo fel cyfanswm yr ychwanegiadau gros at y stoc yn ystod y flwyddyn wedi'i rannu â chyfanswm y stoc ar ddechrau'r flwyddyn, gyda tharged wedi'i osod ar 11%. Mae Ffigwr 16 yn dangos amrediad cyfanswm y cyfraddau adnewyddu gan awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru ym mhob blwyddyn y fframwaith. Yn gyffredinol, mae'n haws cyrraedd y targed ar gyfer y gyfradd adnewyddu na'r targedau yn ymwneud â derbyniadau a gwariant ar ddeunyddiau ill dau:

- Roedd 13 awdurdod wedi cyflawni'r targed ym mhob un o dair blynedd y fframwaith
- Roedd dau awdurdod arall wedi methu â chyflawni'r targed yn 2014-15, ond wedi gwneud hynny yn y flwyddyn ddiweddaraf
- Llwyddodd tri awdurdod i gyflawni'r targed yn nwy flynedd gyntaf y fframwaith ond ni wnaethant hynny yn 2016-17
- Un awdurdod yn unig sydd wedi methu â chyflawni'r targed yn unrhyw flwyddyn o'r fframwaith.

Ffigwr 16 Cyfradd adnewyddu



Mae'r * yn dangos y ffigur ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau. Y llinell solet yw targed y gyfradd adnewyddu sef 11%

Dengys Ffigwr 16, er gwaethaf gostyngiad yn y flwyddyn ddiweddaraf, mae'r gyfradd adnewyddu yn gyffredinol wedi bod yn uwch na'r targed drwy gydol y fframwaith, gan fod yn 12.4% yn 2016-17 – o'i gymharu â 13.0% yn 2014-15 a 13.6% yn 2015-16.


4.9. DASLICC 9 Deunydd darllen priodol

Mae gan y dangosydd hwn hefyd ddau darged y mae'n rhaid eu cyrraedd er mwyn cyflawni DA9 yn llawn – sef isafswm gwariant fesul pen y boblogaeth ar ddeunydd yn y Gymraeg NEU isafswm canran yn y Gymraeg o gyfanswm y derbyniadau; yn ogystal â tharged ar ganran y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar ddeunyddiau i blant.

Dengys Ffigwr 17 gyfran yr awdurdodau oedd wedi cyflawni'n llawn, rhannol gyflawni neu heb gyflawni'r dangosydd ansawdd yn ymwneud â deunydd darllen priodol, a gwelir cyfrannau'r awdurdodau oedd wedi cyflawni'r targedau unigol sy'n cyfrannu at y dangosydd ansawdd yn gyffredinol. Mae'n bwysig nodi nad oedd dau awdurdod, yn 2016-17, wedi darparu data am y dangosydd ansawdd hwn, er bod y ddau wedi rhannol gyflawni'r targedau yn gyffredinol yn nwy flynedd gynharaf fframwaith. Cafwyd rhywfaint o arwyddion o welliant dros gyfnod y fframwaith:

- Roedd wyth awdurdod wedi cyflawni'n llawn y dangosydd ansawdd yn ymwneud â deunydd darllen yn gyffredinol yn 2014-15 – o'i gymharu â saith yn 2015-16 a deuddeg yn 2016-17
- Roedd chwe awdurdod wedi rhannol gyflawni'r dangosydd ansawdd yn ymwneud â deunydd darllen yn gyffredinol yn 2014-15 – o'i gymharu â deuddeg yn 2015-16 a phedwar yn 2016-17. Ni lwyddodd wyth awdurdod i fodloni'r dangosydd ansawdd yn 2014-15 – gan ostwng i dri yn 2015-16 a phedwar yn 2016-17.


Ffigwr 17 Deunyddiau darllen priodol – targedau a gyflawnwyd



Unwaith eto, mae'r dangosydd ansawdd cyffredinol yn cynnwys targedau unigol; mae Ffigwr 18 yn dangos amrediad canran cyffredinol y gwariant deunyddiau ar adnoddau plant gan awdurdodau llyfrgell yn gyffredinol ym mhob blwyddyn y fframwaith. Yn yr achos hwn, dylai amrediad y targed ar gyfer canran y gwariant deunyddiau ar adnoddau plant fod o fewn dau bwynt canran (plws neu minws) o gyfran y boblogaeth sydd o dan 16 oed. Felly, gall awdurdodau fethu â chyflawni'r targed oherwydd fod cyfran eu gwariant deunyddiau ar blant yn fwy na chyfran y plant yn y boblogaeth plws dau bwynt canran, yn ogystal â thrwy wario llai na chyfran y plant yn y boblogaeth minws dau bwynt canran. Yn gyffredinol, mae'r awdurdodau hynny sy'n rhagori ar yr amrediad targed wedi nodi bod eu gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddeunyddiau i blant ac/neu oedolion ifanc pan fo cyfyngu ar gyllidebau, a hynny'n aml yn unol â blaenoriaethau strategol ehangach awdurdodau lleol.

At ei gilydd, roedd pymtheg awdurdod wedi cyflawni'r targed hwn yn 2016-17 – o'i gymharu â deuddeg yn 2015-16 a naw yn 2014-15 ac mae'r dangosydd felly yn dangos rhywfaint o arwyddion gwella. Er gwaethaf cynnydd yn 2015-16, gostwng y mae cyfran y gwariant deunyddiau ar adnoddau plant ledled Cymru gyfan yn y flwyddyn ddiweddaraf ac mae bellach ar lefel debyg i'r hyn a gofnodwyd yn 2014-15, sef yn 18.6% – o'i gymharu â chyfartaledd o 17.5% o'r boblogaeth yn rhai dan 16 oed – ac felly o fewn cwmpas y targed.


Ffigwr 18 - % y gwariant deunyddiau ar adnoddau i blant



Mae * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Mae elfen arall y dangosydd ansawdd hwn yn gysylltiedig â phrynu adnoddau yn Gymraeg, gyda'r awdurdodau yn cyflawni'r targed hwn os oeddynt yn gwario isafswm o 4% o'r gyllideb deunyddiau ar adnoddau Cymraeg neu bod isafswm gwariant o £750 am bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae Ffigwr 19 yn dangos amrediad a chyfanswm cyfran y gwariant deunyddiau ar adnoddau Cymraeg ym mhob blwyddyn y fframwaith, ynghyd â'r targed cyffredinol ar gyfer y dangosydd ansawdd hwn (wedi'i ddangos gan y llinell solet). At ei gilydd, roedd un ar ddeg o'r ugain awdurdod a atebodd wedi cyrraedd y targed hwn yn 2016-17 – o'i gymharu â deg (o 22) yn 2015-16 ac un ar ddeg (o 22) yn 2014-15. Er y cafwyd gostyngiad dros gyfnod y fframwaith, mae cyfanswm cyfran y gwariant deunyddiau ar adnoddau Cymraeg wedi bod yn uwch na'r targed ym mhob un o'r tair blynedd ac mae ar hyn o bryd yn 4.6% – o'i gymharu â 4.8% yn 2014-15 ac yn 2015-16.

Ffigwr 19 Canran y gwariant deunyddiau ar adnoddau Cymraeg



Mae * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau. Y llinell solet yw'r targed o 4% o'r gwariant deunyddiau wedi'i wario ar adnoddau Cymraeg. *mae 2016-17 yn seiliedig ar yr 20 awdurdod a atebodd


Dengys Ffigwr 20 fod awdurdodau yn ei chael yn anoddach cyflawni'r targed yn ymwneud â gwariant fesul pen y boblogaeth ar adnoddau yn Gymraeg. Sylwer bod cyfrannau'r boblogaeth sy'n gallu darllen Cymraeg yn amrywio'n fawr iawn ledled y wlad, ac mae'n

amlyg bod yr awdurdodau hynny sydd â phoblogaethau mwy o faint o bobl sy'n gallu darllen Cymraeg fel rheol yn gwario mwy fesul pen ar ddeunyddiau yn Gymraeg.

- Mae cyfanswm y gwariant ar ddeunydd Cymraeg am bob 1,000 o breswylwyr sy'n siarad ac yn darllen Cymraeg wedi gostwng ym mhob blwyddyn y fframwaith
- Yn 2016-17 y ffigwr oedd £450 am bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n darllen Cymraeg ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd o'i gymharu â'r targed o £750 – ac mae'n cymharu â £489 yn 2015-16 a £547 yn 2014-15
- Gwariodd pedwar awdurdod fwy na £750 ar adnoddau yn y Gymraeg fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n siarad ac yn darllen Cymraeg yn y flwyddyn ddiweddaraf – o'i gymharu â phum awdurdod yn cyflawni'r targed yn 2015-16 a saith yn cyflawni'r targed yn 2014-15
- Llwyddodd un awdurdod i gyflawni'r ddau darged ym mhob un o dair blynedd y fframwaith, a phedwar awdurdod arall wedi cyflawni'r targedau yn 2014-15 ond wedi methu â gwneud hynny yn y ddwy flynedd ers hynny

Mae'n werth nodi, yn y flwyddyn ddiweddaraf, fod sawl awdurdod oedd wedi methu â chyflawni'r targed hwn wedi dweud bod hyn yn bennaf oherwydd y cyfyngiadau presennol ar y gyllideb deunyddiau yn gyffredinol.

Ffigwr 20 Gwariant ar adnoddau yn Gymraeg am bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n darllen Cymraeg



Mae'r * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau. Y llinell solet yw targed y gwariant deunyddiau, sef £750 am bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg


* mae 2016-17 yn seiliedig ar yr 20 awdurdod a atebodd

4.10. DASLICC 10 Mynediad ar-lein

Mae DASLICC 10 yn ymwneud â darparu mynediad i'r rhyngwyd, ac mae tair rhan iddo:

- yn gyntaf dylai pob llyfrgell sefydlog (a theithiol) gynnig o leiaf un ddyfais sy'n rhoi mynediad cyhoeddus i'r rhyngwyd ac i gynnwys digidol sydd ar y rhwydwaith;
- dylai awdurdodau sicrhau cyfanswm ledled yr awdurdod o ddim llai na 9 dyfais o'r fath am bob 10,000 o'r boblogaeth sy'n preswylu yno;
- ac yn olaf dylai'r holl fannau gwasanaeth sefydlog ddarparu mynediad Wi-Fi i ddefnyddwyr sydd am ddod â'u gliniaduron neu ddyfeisiau symudol eu hunain.

Ffigwr 21 Mynediad ar-lein – targedau a gyflawnwyd



Mae'n bwysig nodi pan fo awdurdod yn adrodd fod yr holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu o leiaf un ddyfais sy'n rhoi mynediad i'r rhyngwrwd ond nad yw eu holl lyfrgelloedd teithiol yn cynnig hynny, teimlai MALD na ddylai hynny eu hatal rhan cyflawni'r dangosydd yn gyffredinol yn y fframwaith hwn.

Mae Ffigwr 21 yn dangos cyfrannau'r awdurdodau sy'n cyflawni'r targed cyffredinol ar gyfer mynediad ar-lein yn llawn, yn rhannol ac yn ei fethu, ynghyd â lefelau cyflawni'r targedau unigol cyfatebol sy'n llunio'r dangosydd ansawdd hwn.


- Cafwyd arwyddion o wella dros gyfnod y fframwaith, gyda deuddeg awdurdod yn cyflawni'n llawn y dangosydd ansawdd cyffredinol yn y flwyddyn ddiweddaraf – o'i gymharu â deg yn 2014-15 ac un ar ddeg yn 2015-16.
- Methodd wyth awdurdod â darparu naw dyfais gyhoeddus wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwd am bob 10,000 o'r boblogaeth yn y flwyddyn ddiweddaraf – o'i gymharu ag wyth yn 2014-15 a saith yn 2015-16.
- Ni lwyddodd pum awdurdod i gyrraedd y targed o gael o leiaf naw dyfais gyhoeddus wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwd am bob 10,000 o'r boblogaeth ym mhob un o dair blynedd y fframwaith.

“Rwyf wedi defnyddio'r llyfrgell yn bennaf ar gyfer y cyfrifiaduron ... gan nad oes gen i gyfrifiadur gartref, ac mae hyn wedi golygu 'mod i wedi gallu ymchwilio ymhellach i brosiect hanes.”

Dengys Ffigwr 22 amrediad a chyfanswm nifer y dyfeisiau cyhoeddus sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwd fesul pob 10,000 o'r boblogaeth drwy gydol y fframwaith, o'i gymharu â'r

targed. Mae'r cyfanswm ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd wedi parhau'n gymharol sefydlog drwy'r cyfnod ac mae bellach ar lefel ychydig yn uwch na'r targed ym mhob un o'r tair blynedd. Mae'n werth nodi bod sawl awdurdod wedi dweud bod diffyg lle addas yn eu rhwystro rhag cynyddu nifer y dyfeisiau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio ac felly mae'r targed a osodwyd yn parhau'n anghyraeddadwy iddynt.


Ffigwr 22 Cyfrifiaduron ar y rhwydwaith sydd ar gael i'r cyhoedd fesul 10,000 o'r boblogaeth



Mae * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau. Y llinell solet yw'r targed o 9 dyfais fesul 1,000 o'r boblogaeth

4.11. DASLICC 11 Defnyddio TGCh

Ffigwr 23 Cyfran y defnydd ar TGCh cyhoeddus



Mae'r * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau. * mae 2016-17 yn seiliedig ar 21 awdurdod

Yn Ffigwr 23 gwelir amrediad y defnydd cyffredinol ar gyfleusterau TGCh cyhoeddus dros gyfnod y fframwaith ac mae'n dangos bod ystod y gwerthoedd wedi cynyddu bob blwyddyn, tra bod y lefel gyffredinol ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd wedi gostwng, hyd nes yn 2016-17 roedd y cyfleusterau TGCh ledled Cymru gyfan wedi'u defnyddio am 33% o'r amser yr oeddynt ar gael – o'i gymharu â 37% yn 2014-15 a 33% yn 2015-16. Mae'n bwysig nodi bod cyfran y defnydd ar TGCh yn amrywio rhwng awdurdodau yn dibynnu ar faint o TGCh sy'n cael ei ddarparu, gyda'r awdurdodau hynny sy'n cynnig llai o ddyfeisiau i'r cyhoedd yn aml yn adrodd cyfran uwch ar y defnydd o'i gymharu â'r awdurdodau hynny sy'n cynnig mwy o ddarpariaeth. Dywedodd sawl awdurdod hefyd eu bod wrthi'n lleihau nifer y dyfeisiau sydd ar

gael i'r cyhoedd er mwyn gwneud mwy o le ar gyfer y dyfeisiau y mae'r cwsmeriaid eu hunain yn dod gyda nhw ac mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio ar y dangosydd ansawdd hwn yn y fframwaith nesaf.


Mae ail elfen y dangosydd ansawdd dan sylw yn ymwneud â chyfran yr amser y cafodd y rhwydwaith Wi-Fi ei ddefnyddio gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, gwelwyd bod casglu'r data hwn yn gyson yn dipyn o her i awdurdodau, ac erbyn 2016-17, dim ond tri awdurdod a oedd wedi gallu darparu'r wybodaeth hon. Nid yw felly wedi'i gynnwys yma, ac mae wedi'i adael allan o'r chweched fframwaith. Mae'n werth nodi, serch hynny, fod sawl awdurdod wedi sôn am duedd o ostyngiad yn y defnydd ar ddyfeisiau sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd, tra bod cynnydd yn y defnydd ar y rhwydwaith Wi-Fi drwy ddefnyddio dyfeisiau y mae'r cwsmeriaid eu hunain wedi dod gyda nhw, ac mae'n bosibl y daw hyn yn fwy amlwg yn ystod y fframwaith nesaf.

4.12. DASLICC 12 Cyflenwi ceisiadau

Er na osodwyd targedau yn ffurfiol yn y fframwaith hwn ar gyfer cyflymder cyflenwi ceisiadau, mae'r data a adroddwyd yn berthynol i'r targedau a osodwyd yn y pedwerydd fframwaith, ac maent wedi'u hailgyflwyno ar gyfer y chweched fframwaith, ar gais yr awdurdodau llyfrgell.

Roedd cyflwyno'r LMS newydd yn y Gogledd wedi effeithio ar adrodd ar y dangosydd hwn i nifer fechan o awdurdodau yn 2016-17.

Ffigwr 24 Canran y ceisiadau ar gael o fewn 7 diwrnod



Mae'r * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau. Y llinell solet yw'r targed o 64% o geisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod * mae 2016-17 yn seiliedig ar 21 awdurdod


Mae cyfran gyffredinol y ceisiadau sydd wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod wedi amrywio dros gyfnod y fframwaith; fodd bynnag, mae wedi bod yn uwch na'r targed o 64% ym mhob blwyddyn (Ffigwr 24). Ar y cyfan:

- Syrthiodd un awdurdod yn is na'r 64% ym mhob un o dair blynedd y fframwaith
- Yn y flwyddyn ddiweddaraf, roedd tri o'r 21 awdurdod a atebodd wedi methu â chyflawni'r targed o gyflenwi 64% o geisiadau o fewn 7 diwrnod – o'i gymharu â dim ond un awdurdod (allan o 22) yn 2014-15 ac yn 2015-16
- Mae Ffigwr 24 yn dangos bod yr amrediad wedi cynyddu dros gyfnod y fframwaith

- Cofnododd deg awdurdod ostyngiad cyffredinol yng nghyfran y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod ers 2014-15 a sawl un yn priodoli hyn i leihad yn y gyllideb llyfrau a'r lefelau staffio

Mae cyfran gyffredinol y ceisiadau sydd wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod wedi aros yn gymharol sefydlog drwy gydol y fframwaith ac wedi parhau'n uwch na'r targed o 79% ym mhob un o'r tair blynedd (Ffigwr 25). Yr un fath â chyfran y ceisiadau sydd wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod, mae'r amrediad wedi cynyddu dros gyfnod y fframwaith, gyda deg awdurdod ar hyn o bryd yn cofnodi llai o geisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod nag yn 2014-15. Mae'n bwysig nodi bod sawl awdurdod wedi dweud bod y cyfyngiadau cyfredol ar gyllidebau deunyddiau a staffio wedi effeithio ar amser cyflenwi ceisiadau, gan fod cyllidebau is yn aml yn arwain at brynu llai o gopiâu o lyfrau, a hynny yn ei dro yn arwain at gynnydd yn yr amseroedd aros ar gyfer llyfrau poblogaidd. Yn ogystal â hyn, gall gostyngiad yn y lefelau staffio effeithio ar y broses ceisiadau a all hefyd arwain at oedi yn y cyflenwi.

Ffigwr 25 Canran y ceisiadau ar gael o fewn 15 diwrnod



Mae'r * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Y llinell solet yw'r targed o 64% o geisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod

* mae 2016-17 yn seiliedig ar 21 awdurdod

Drwyddi draw yn 2016-17 roedd 17 awdurdod (allan o 21) wedi cyflenwi o leiaf 64% o geisiadau o fewn 7 niwrnod ac o leiaf 79% o geisiadau o fewn 15 diwrnod – o'i gymharu â 19 awdurdod (allan o 22) yn 2014-15 ac ugain awdurdod (allan o 22) yn 2015-16.


4.13. DASLICC 13 Lefelau a chymwysterau staff

Mae gan y dangosydd hwn bedwar targed yn ogystal â nifer o elfennau i adrodd amdanynt.

“Nid rhoi llyfrau allan yn unig y mae staff llyfrgell, maen nhw wedi rhoi fy nynoldeb yn ôl i mi.”


Ar y cyfan, gwaethygu mae nifer yr awdurdodau sy'n bodloni'n llawn y dangosydd ansawdd ar gyfer lefelau a chymwysterau staff dros gyfnod y fframwaith – o bedwar awdurdod yn 2014-15 i ddim ond un yn y flwyddyn ddiweddaraf, ac mae'r dirywiad yn destun pryder (Ffigwr 26). Mae'n bwysig, efallai, pwysleisio nad oes yr un awdurdod wedi methu â chyflawni'r holl dargedau unigol mewn unrhyw flwyddyn yn y fframwaith.

Ffigwr 26 Lefelau a chymwysterau staff – targedau a gyflawnwyd



Gan edrych ar bob elfen yn ei thro, mae'r lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng yn ystod y pumed fframwaith, ac ymddengys mai dyma'r targed staffio anoddaf i'w gyflawni, gyda dim ond dau awdurdod yn cyflawni o leiaf 3.6 aelod o staff am bob 10,000 o'r boblogaeth yn y flwyddyn ddiweddaraf – o'i gymharu â thri yn 2015-16 a chwech yn 2014-15. Mae Ffigwr 27 yn dangos amrediad a lefelau cyffredinol cyfanswm y staff fesul pob 10,000 o'r boblogaeth ac yn amlygu bod y cyfanswm ar gyfer Cymru wedi gostwng dros gyfnod y fframwaith, gan fod islaw lefel y targed ym mhob blwyddyn. Mae'r gostyngiad yn y lefelau staffio yn destun pryder, a gofid penodol yw bod nifer uchaf y staff fesul pob 10,000 o'r boblogaeth mewn unrhyw awdurdod wedi aros ar lefel y targed yn 2016-17.

Ffigwr 27 Cyfanswm staff fesul 10,000 o'r boblogaeth




Mae'r * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Y llinell solet yw'r targed o 3.6 aelod o staff am bob 10,000 o'r boblogaeth

Mae lefelau staff cymwysedig hefyd wedi gwaethygu dros gyfnod y fframwaith – gyda 13 o awdurdodau yn cyflawni'r targed o gael o leiaf 0.65 o aelodau cymwysedig o staff llyfrgell am bob 10,000 o'r boblogaeth yn 2014-15, o'i gymharu â naw yn 2015-16 a saith yn y flwyddyn ddiweddaraf. Yn ogystal â hyn, dengys Ffigwr 28 fod cyfanswm nifer y staff cymwysedig fesul pob 10,000 o'r boblogaeth ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd wedi bod yn is na'r targed yn nwy flynedd ddiwethaf y fframwaith. Un awdurdod yn unig a lwyddodd i gyflawni'r targedau ar gyfer staff cyffredinol a staff cymwysedig yn 2016-17.

Ffigwr 28 Staff cymwysedig fesul pob 10,000 o'r boblogaeth



Mae'r * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Y llinell solet yw'r targed o 0.65 o staff cymwysedig fesul 10,000 o'r boblogaeth

* mae 2014-15 yn seiliedig ar 21 awdurdod


Er gwaethaf gostyngiad yn niferoedd staff, mae'n galonogol bod cyfran gyfartalog amser staff sydd wedi'i dreulio yn hyfforddi ac yn datblygu yn uwch na'r targed o 1% ym mhob blwyddyn y fframwaith er bod amrywiaeth mawr rhwng awdurdodau (Ffigwr 29). Adroddodd un awdurdod fod 24% o amser staff wedi'i dreulio mewn hyfforddiant yn 2015-16 gan nodi bod hyn oherwydd ailstrwythuro a oedd wedi arwain at staff yn cael eu penodi i rolau newydd ac yn gwneud hyfforddiant helaeth o ganlyniad. Byddai eu hepgor o'r cyfrifiadau

wedi golygu lefel gyffredinol o 1.2% ac uchafswm o 2.3% o amser staff wedi'i dreulio yn hyfforddi ac yn datblygu yn 2015-16.

Ar y cyfan:

- Dau awdurdod oedd wedi methu â chyflawni'r targed yn 2016-17 – o'i gymharu â phedwar yn 2014-15 a phump yn 2015-16
- Mae pob awdurdod wedi cyflawni'r targed o 1.0% o amser staff wedi'i dreulio yn hyfforddi ac yn datblygu am o leiaf un flwyddyn yn y fframwaith
- Roedd 14 awdurdod wedi cyflawni'r targed ym mhob un o dair blynedd y fframwaith

Ffigwr 29 Cyfran amser staff wedi'i dreulio yn hyfforddi ac yn datblygu



Mae'r * yn dangos y canran cyffredinol ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

Y llinell solet yw'r targed o 1% o amser staff wedi'i dreulio yn hyfforddi ac yn datblygu

*mae 2014-15 a 2016-17 yn seiliedig ar 21 awdurdod

Mae'r holl awdurdodau yn adrodd fod gan bennaeth y gwasanaeth gymhwyster ffurfiol mewn llyfrgellyddiaeth neu wyddor gwybodaeth/rheoli gwybodaeth drwy gydol y fframwaith, heblaw am un yn y flwyddyn ddiweddaraf. Mae'r pennaeth gwasanaeth hwn ers hynny wedi gwneud cais i astudio cymhwyster mewn llyfrgellyddiaeth.

Casglwyd data hefyd ar nifer y gwirfoddolwyr, er nad oedd targedau cyfatebol. Mae cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr wedi mwy na dyblu dros gyfnod y fframwaith, tra bod nifer yr oriau cyfartalog a gyfrannwyd gan bob unigolyn wedi gostwng (Tabl 30). Nid adroddodd yr un awdurdod fod ganddynt achrediad Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr yn 2016-17, er bod tri awdurdod wedi nodi bod hyn ar y gweill.

Tabl 30 Gwirfoddolwyr

	2014-15	2015-16	2016-17
Cyfanswm gwirfoddolwyr	365	596	954
Nifer cyfartalog oriau gwirfoddolwyr	43	37	29
Nifer yr awdurdodau wedi'u cynnwys	17	20	19
Nifer yr awdurdodau heb wirfoddolwyr	5	2	3


Rhoddodd rhai awdurdodau fanylion am weithgareddau a wnaed gan wirfoddolwyr yn eu llyfrgelloedd yn ystod 2016-17 ac roedd y rhain yn cynnwys pobl ar leoliadau profiad gwaith,

cyfranogwyr gwobrau Dug Caeredin, gwirfoddolwyr yn gweithio mewn llyfrgelloedd cymunedol a rhai oedd yn gwirfoddoli ar gyfer prosiectau penodol.

“I mi roedd [gwirfoddoli yn y llyfrgell] yn sicr yn werth ei wneud a ... dyna'r prif reswm yr ydw i nawr mewn gwaith cyflogedig.”

4.14. DASLICC 14 Gwariant gweithredol

Ffigwr 31 Cyfanswm y gwariant refeniw fesul 1,000 o'r boblogaeth



Mae'r * yn dangos y ffigur ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

* mae 2015-16 a 2016-17 yn seiliedig ar 21 awdurdod


Yn Ffigwr 31 gwelir amrediad a chyfanswm y gwariant refeniw fesul 1,000 o'r boblogaeth, ac mae'n arddangos yr amrywiaeth mawr mewn gwariant rhwng awdurdodau. Nid yw'n syndod o bosibl o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol fod cyfanswm y gwariant refeniw fesul pob 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd wedi gostwng ym mhob blwyddyn y fframwaith nes ei fod bellach yn £12,412 o'i gymharu â £14,597 yn 2014-15.

Ymddengys nad oes fawr o gysylltiad rhwng nifer y dangosyddion ansawdd cyffredinol sydd â thargedau a gyflawnwyd yn llawn a lefel y gwariant refeniw fesul 1,000 o'r boblogaeth. Yn 2016-17, roedd yr awdurdod a adroddodd y gwariant refeniw uchaf fesul pob 1,000 o'r boblogaeth wedi cyflawni'n llawn bedwar o'r dangosyddion ansawdd cyffredinol sydd â thargedau, wedi rhannol gyflawni dau ac wedi methu â chyflawni un. Mewn cymhariaeth, roedd yr awdurdod a gofnododd y gwariant refeniw isaf fesul pob 1,000 o'r boblogaeth yn y flwyddyn ddiweddaraf, wedi cyflawni'n llawn dri o'r dangosyddion ansawdd cyffredinol sydd â thargedau, rhannol gyflawni tri arall ac wedi methu â chyflawni un o'r dangosyddion sydd â thargedau. Llwyddodd un awdurdod i gyflawni pob un o'r saith dangosydd ansawdd sydd â thargedau yn 2016-17 a hwy gofnododd y pedwerydd gwariant refeniw uchaf fesul pen y boblogaeth.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi'i rannu rhwng gwariant ar staff, deunyddiau, cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu offer ac adeiladau a gwariant gweithredol arall. Dengys Ffigwr 32 gyfrannau'r gwariant ym mhob blwyddyn y fframwaith ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd gan ddangos fod staff yn cyfrif am 58% o'r gwariant refeniw yn 2016-17 a'r gwariant ar ddeunyddiau yn cyfrif am 13.3% – o'i gymharu â staff yn cyfrif am 56% o gyfanswm y gwariant refeniw yn 2014-15 ac yn 2015-16. Mae'n bwysig nodi bod arferion gwahanol yn ymwneud ag ailgodi tâl yn fewnol yn effeithio ar gyfrannau'r gwariant a

adroddwyd gan awdurdodau unigol, ac yn effeithio yn enwedig ar gyfran y gwariant ar 'gostau gweithredol eraill'.

Ffigwr 32 Dadansoddi'r gwariant




* mae 2015-16 a 2016-17 yn seiliedig ar 21 awdurdod

Casglwyd data hefyd ar wariant cyfalaf ac roedd gwahaniaeth mawr rhwng awdurdodau. Yn 2016-17, roedd cyfanswm y gwariant cyfalaf fesul pob 1,000 o'r boblogaeth yn amrywio o £0 i £16,692 gyda chyfanswm o £1,149 fesul pob 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd. Dros gyfnod y fframwaith tair blynedd, mae bron i £8 miliwn wedi'i wario ar brosiectau cyfalaf gan 19 o'r 22 awdurdod llyfrgell yng Nghymru – £1.5 miliwn yn 2014-15; £3.1 miliwn yn 2015-16 a £3.3 miliwn yn 2016-17.

4.15. DASLICC 15 Y gost am bob ymweliad

Ffigwr 33 Y gost gyfartalog am bob ymweliad



Mae'r * yn dangos y ffigwr ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.

2015-16 yn seiliedig ar 21 ymatebydd; 2016-17 yn seiliedig ar 20 ymatebydd

Roedd y pumed fframwaith hefyd wedi casglu gwybodaeth ar incwm yn y ddwy flynedd ddiweddaraf sy'n rhoi modd cyfrifo'r gost net am bob ymweliad. Caiff hyn ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwariant referniw ac incwm wedi'i rannu gan gyfanswm nifer yr ymweliadau corfforol a rhith-ymweliadau. Dengys Ffigwr 33 yr amrediad a'r gost gyfartalog gyffredinol am bob ymweliad yn y ddwy flynedd sydd ar gael – roedd data ôl-weithredol ar gyfer 2014-15 yn anghyflawn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yma. Ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd, mae'r gost gyfartalog am bob ymweliad wedi gostwng dros gyfnod y fframwaith gan fod yn £2.21 yn 2016-17, o'i gymharu â £2.33 yn 2015-16. Nid yw'r


gostyngiad yng nghyfartaledd y gost am bob ymweliad yn syndod o gofio'r cyfyngiadau ar y gyllideb a osodwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gallai cynnydd yn nifer yr ymweliadau hefyd arwain at ostyngiad yn y gost gyfartalog am bob ymweliad i awdurdodau unigol.

4.16. DASLICC 16 Oriau agor

Mae'r dangosydd ansawdd sy'n ymwneud ag oriau agor yn cynnwys un targed yn unig a hwnnw'n argymhell dim llai na 120 awr ar agor y flwyddyn am bob 1,000 o'r boblogaeth. Dengys Ffigur 34 rychwant a nifer cyffredinol yr oriau agor bob blwyddyn fesul pob 1,000 o'r boblogaeth drwy gydol y fframwaith ac mae'n dangos bod y sefyllfa wedi gwaethygu'n gyffredinol ers 2014-15, gan beri peth pryder. Gall oriau agor ostwng oherwydd cau canghennau cyfan, neu drwy gwtogi ar yr oriau mewn rhai eraill, a defnyddiwyd y ddwy strategaeth hon i weithredu toriadau i'r gyllideb yn ystod y fframwaith hwn. Drwyddi draw, mae oriau agor wedi gostwng yn raddol ers 2014-15 – o 142 fesul pob 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer Cymru yn gyffredinol i 131 yn y flwyddyn ddiweddaraf, er ei bod yn bwysig nodi bod y ffigur wedi parhau yn uwch na'r targed ym mhob blwyddyn. Ar y cyfan:

- Roedd dau awdurdod wedi methu â chyflawni'r targed o 120 o oriau agor y flwyddyn fesul pob 1,000 o'r boblogaeth yn 2014-15, o'i gymharu â chwe awdurdod yn 2016-17
- Llwyddodd 14 awdurdod i gyflawni'r targed ym mhob un o'r tair blynedd
- Dim ond dau awdurdod oedd wedi methu â chyflawni'r targed yn unrhyw flwyddyn o'r fframwaith
- Roedd pymtheg awdurdod ar agor yn hirach yn 2014-15 o'i gymharu â'r flwyddyn ddiweddaraf

Ffigur 34 Oriau agor blynyddol fesul 1,000 o'r boblogaeth



Mae'r * yn dangos y ffigur ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd; mae'r rhannau wedi'u lliwio'n cynrychioli'r amrediad ar draws yr awdurdodau.
Y llinell solet yw'r targed o 120 awr fesul pob 1,000 o'r boblogaeth

Rhoddodd awdurdodau llyfrgell fanylion hefyd am gau manau gwasanaeth sefydlog mewn argyfwng a heb gynllunio gwneud hynny ynghyd â nifer yr arosfannau llyfrgell deithiol neu wasanaethau cludo i'r cartref a gollwyd oherwydd methiant cerbydau neu oherwydd nad oedd staff ar gael, ac roedd amrywio mawr rhwng yr awdurdodau:

- yn 2016-17 roedd cau mannau gwasanaeth sefydlog mewn argyfwng a heb gynllunio gwneud hynny fel cyfran o gyfanswm yr oriau agor a gynlluniwyd wedi amrywio o 0.00% i 0.48%
- adroddodd 13 awdurdod na chafwyd unrhyw gau mannau gwasanaeth sefydlog mewn argyfwng neu heb gynllunio gwneud hynny yn 2016-17– o'i gymharu â naw awdurdod yn 2014-15 a deuddeg yn 2015-16
- yn 2016-17 roedd yr arosfannau llyfrgell deithiol/cludo i gartrefi a fethwyd fel cyfran yr holl arosfannau/cludo i gartrefi a gynlluniwyd yn amrywio o 0.00% i 8.33%
- heblaw am gau heb gynllunio gwneud hynny oherwydd tywydd gwael neu resymau eraill tu hwnt i reolaeth llyfrgell (nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau hyn), roedd y prif reswm a roddwyd dros gau heb gynllunio hynny yn gysylltiedig â phrinder staff / dim staff ar gael.
- adroddodd saith awdurdod na fethwyd unrhyw arhosfan llyfrgell deithiol neu gludo i'r cartref ym mhob un o dair blynedd y fframwaith
- gan eithrio'r rheiny a fethwyd oherwydd tywydd gwael neu resymau eraill tu hwnt i reolaeth llyfrgell, nododd awdurdodau fod problemau mecanyddol ac oedran cerbydau eu llyfrgelloedd teithiol ynghyd â salwch staff wedi cyfrannu at fethu arosfannau llyfrgell deithiol neu gludo i gartrefi.

5. Astudiaethau achos effaith

Elfen allweddol o'r adrodd ar y pumed fframwaith oedd cynnwys astudiaethau achos ynghylch yr effaith y mae gwasanaethau llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Dros gyfnod y fframwaith, mae pob gwasanaeth llyfrgell wedi cyflwyno o leiaf dwy astudiaeth achos, er, mewn rhai achosion, prin oedd y dystiolaeth ynghylch yr union effaith a gafwyd. Roedd yr astudiaethau achos gorau yn cynnwys disgrifiad o'r gweithgaredd neu wasanaeth a'r gwahaniaeth y mae cymryd rhan wedi'i gael ar unigolyn neu unigolion, gan gynnwys dyfyniadau gan yr unigolion hynny ynghylch y gwahaniaeth y mae'r llyfrgell wedi'i wneud i'w bywydau.

Cyflwynwyd cyfanswm o 206 o astudiaethau achos dros gyfnod y fframwaith. Maent yn disgrifio amrywiaeth eang o wasanaethau ac effeithiau cysylltiedig, gan gwmpasu strategaethau a pholisïau llywodraeth leol a chenedlaethol. Mae rhai themâu yn gyffredin rhwng yr astudiaethau achos ar hyd y blynyddoedd. Y canlyniadau mwyaf amlwg yw'r rhai yn ymwneud ag iechyd a lles defnyddwyr llyfrgell, yn enwedig y rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl neu gorfforol, a chynhwysiant cymdeithasol. Gyda'i gilydd, gellir gweld yr effeithiau hyn mewn tua hanner yr holl astudiaethau achos. Mae tua chwarter yr astudiaethau achos yn delio â materion cynhwysiant digidol a llythrennedd digidol, neu â'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith cyflogedig. Mae'r themâu hyn i'w gweld yn yr astudiaethau achos yn ymwneud â phlant, yn ogystal ag addysg a sgiliau, a llythrennedd. Mae rhai enghreifftiau wedi'u rhoi isod.

- Plentyn awtistig sydd wedi dechrau cymryd rhan mewn sesiynau gweithgareddau llyfrgell a hynny'n ei helpu i'w dynnu allan o'i gragen
- Y cynllun Darllen gyda Chŵn ar gyfer plant a allai elwa o wella eu sgiliau darllen a chyfathrebu – trwy ddarllen i gŵn (a'u cydymaith sy'n oedolyn) gan ennill hyder a'r gallu i ddarllen yn uchel
- Prosiect celf a threftadaeth ar hanes y Rhyfel Byd Cyntaf mewn dwy lyfrgell, a'r cyfranogwyr a ddyfynnwyd yn amlwg wedi'i fwynhau
- Unigolyn heb fand eang gartref a ddefnyddiai gyfrifiaduron y llyfrgell i chwilio am swydd a gwybodaeth
- Cynllun gwirfoddoli digidol sy'n rhoi achrediad i wirfoddolwyr ar gyfer eu Bagloriaeth Gymreig yn ogystal â chynyddu sgiliau'r defnyddwyr llyfrgell y maen nhw'n eu cefnogi
- Myfyrwraig aeddfed yn astudio gyda'r Brifysgol Agored a oedd wedi cael llyfrau, gwybodaeth ar-lein a lle i astudio yn y llyfrgell i gwblhau ei chwrs
- Teulu sy'n addysgu gartref a'r llyfrgell yn ffynhonnell ysbrydoliaeth iddynt yn ogystal â darparu deunyddiau dysgu
- Defnyddiwr y mae ei fywyd wedi newid er gwell gyda chartref newydd, swydd a chariad dramor, ar ôl defnyddio'r llyfrgell i wella ei sgiliau TG a chael cymhwyster addysgu

- Gwirfoddolwr trwy Geiswyr Gwaith a gafodd gefnogaeth ac anogaeth mewn cyfnod anodd, a chael gwaith cyflogedig o ganlyniad
- Dyn digartref a gafodd gymorth i greu CV a hynny wedi arwain at gais llwyddiannus am swydd sydd wedi rhoi modd iddo gynnal ei hun eto
- Dynes ag iechyd meddwl gwael a oedd wedi dioddef trallod teuluol, ac wedi cael ei helpu gan yr adnoddau a'i gweithgareddau yn ei llyfrgell leol i wneud ffrindiau newydd, ailgynnu diddordebau a dysgu sgiliau newydd
- Merch ifanc â phroblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl a deimlai'n ddiogel ac yn heddychlon yn y llyfrgell
- Tystiolaeth gan ddefnyddiwr hŷn y mae ansawdd ei fywyd wedi'i gyfoethogi yn sgil ddefnyddio'r llyfrgell
- Plentyn ag awtistiaeth ac un arall â syndrom Down sydd wedi gwella eu sgiliau cyfathrebu drwy amrywiol weithgareddau'r llyfrgell
- Teulu digartref yn byw ar wahân mewn hosteli gwahanol, ac yn teimlo bod y llyfrgell yn lle diogel i gwrdd ac wedi gallu defnyddio'r cyfleusterau TGCh i chwilio am gartref gyda'i gilydd ac i chwilio am waith
- Gŵr a oedd yn amcangyfrif bod defnyddio'r llyfrgell i ddarllen papurau newydd ac i ymchwilio i hanes ei deulu wedi arbed dros £1,000 y flwyddyn iddo
- Dynes anabl a oedd cyn hynny yn unig, ond sydd bellach â rheswm i gymdeithasu, ac wedi dyweddio i briodi o ganlyniad
- Defnyddwraig yn byw mewn ardal anghysbell sydd wedi dod ynghlwm â'i chymuned leol trwy weithgareddau yn y llyfrgell
- Preswlydd newydd i Gymru a gafodd gymorth i ymgartrefu yn ei chymuned newydd ac sydd bellach yn gwirfoddoli fel Hyrwyddwr Digidol
- Y grŵp 'Knitting Nanas' sy'n mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol ac yn cefnogi elusennau lleol
- Teulu sydd wedi defnyddio'r llyfrgell ers nifer o flynyddoedd ac yn dweud ei bod yn 'amhrisiadwy'.

6. Casgliad

Mae'r pumed fframwaith wedi gweld cyfnod anodd iawn i lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru ar y cyfan, gyda chyfyngiadau eang ar gyllidebau yn effeithio ar bob agwedd ar lyfrgelloedd cyhoeddus, ond yn arbennig y rheiny sy'n seiliedig ar adnoddau, gan gynnwys meysydd staffio.

Drwyddi draw, cafwyd dirywiad cyffredinol ym mherfformiad llyfrgelloedd yn ystod y fframwaith hwn, gyda nifer llai o awdurdodau yn cyflawni dau o'r dangosyddion (staffio ac oriau agor) ar ddiwedd y fframwaith o'i gymharu â'r dechrau, a nifer uwch o awdurdodau yn methu'r targedau derbyniadau (stoc). Ar ben hynny, o ran rhai dangosyddion mae awdurdodau wedi gostwng yn is nag o'r blaen ar dargedau penodol, heb fawr o obaith o'u cyflawni yn y dyfodol. Awgryma'r newidiadau hyn fod y gwasanaeth i'r cyhoedd o ddydd i ddydd yn debygol o waethygu gan fod llyfrgelloedd ar agor am lai o oriau, bod llai o stoc ynddynt, a llai o staff i helpu i ddarparu gwasanaethau.

Er gwaethaf y gostyngiad yn y lefelau a adroddir yma, mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn dal i fod yn uchel wrth i 97% o ddefnyddwyr oedolion, ar gyfartaledd, ddweud bod eu llyfrgell yn 'dda' neu'n 'dda iawn' yn gyffredinol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'r arolygon cwsmeriaid wedi'u cynnal cyn i effaith lawn y cyfyngiadau ar y cyllidebau gael ei themlo, ac felly bydd yn ddiddorol gweld a adlewyrchir hyn yn ystod y chweched fframwaith sydd i ddod.

Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn yr astudiaethau achos effaith yn amlygu'r gwahaniaeth y mae gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn ei wneud i bobl Cymru, a hynny ar draws pob maes agendâu llywodraeth leol a chenedlaethol. Ynghyd â lefelau uchel bodlonrwydd cwsmeriaid, mae hyn yn dangos gwerth gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus wrth gyfrannu at flaenoriaethau strategol a datblygiad i'r dyfodol.

Heb amheuaeth, un o gryfderau'r pumed fframwaith oedd gwydnwch staff yn wyneb cyfyngiadau cyllidebol trwm; fodd bynnag, mae'n annhebygol y gall llyfrgelloedd cyhoeddus barhau i ddatblygu gwasanaethau sy'n berthnasol i anghenion Cymru a'i phobl ar y lefelau staffio presennol sy'n argyfyngus o isel.

Elfen olaf y ffurflenni blynyddol i MALD yw datganiad cryno ynghylch y cyfeiriad i'r dyfodol a ragwelir gan bob gwasanaeth llyfrgell. Mae hyn yn rhoi arwydd cynnar i MALD ynghylch toriadau arfaethedig i'r gyllideb, adrefnu, ymwneud cymunedol a datblygiadau newydd sydd ar y gweill ym mhob awdurdod. Mae'r datganiadau hyn yn unigol i bob awdurdod, ac mae'r rhan fwyaf wedi'u hysgrifennu yn optimistaidd, gan ganolbwyntio ar strategaethau sydd wedi'u cynllunio i barhau i ddarparu gwasanaethau llyfrgell rhagorol i bobl Cymru. Dros gyfnod y fframwaith, fodd bynnag, mae wedi dod yn glir fod yr heriau yn cynyddu, ac mae rhai gwasanaethau llyfrgell mewn sefyllfa fregus iawn.

Mae'r chweched fframwaith wedi'i ddatblygu i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y pumed fframwaith a'r gobaith yw y ceir sefyllfa fwy sefydlog i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn y tair blynedd hyn.

Atodiad: Hawliau craidd a dangosyddion ansawdd

Cwsmeriaid a chymunedau

Hawliau craidd

- HCSLICC 1* Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu.
- HCSLICC 2* Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu, mwynhad a galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.
- HCSLICC 3* Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol.

Dangosyddion ansawdd

DASLICC 1 Gwneud gwahaniaeth

Bydd awdurdodau yn adrodd am y canlynol, o leiaf unwaith yn y cyfnod tair blynedd:

- canran yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd
- canran y plant sy'n meddwl bod defnyddio'r llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau;
- canran yr oedolion sydd wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch iechyd a lles yn y llyfrgell;
- canran yr oedolion sy'n teimlo bod y llyfrgell yn lle diogel a chroesawgar i ymweld â hi;
- canran yr oedolion a chanran y plant sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

DASLICC 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- canran yr oedolion sy'n credu bod y dewis o lyfrau sydd ar gael yn y llyfrgell a ddefnyddiant yn 'dda iawn' neu'n 'dda';
- canran yr oedolion sy'n credu bod safon y gofal cwsmeriaid yn 'dda iawn' neu'n 'dda';
- canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol;
- sgôr gyffredinol allan o ddeg ar gyfartaledd a roddwyd gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau i'r llyfrgell maent yn eu defnyddio.

DASLICC 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol

Dylai llyfrgelloedd wneud yn siŵr fod y gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnig yn yr holl fannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu ragor:

- cymorth sylfaenol i ddefnyddio'r seilwaith TGCh a gynigir (gan gynnwys y rhwydwaith Wi-Fi) a chymorth i gael gafael ar y rhychwant o adnoddau gwybodaeth electronig sydd ar gael;
- hyfforddiant i wella llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a sgiliau digidol. Gellid datblygu rhaglenni hyfforddi a'u cyflwyno gyda phartneriaid priodol y tu allan i'r gwasanaeth llyfrgell;
- sesiynau llythrennedd gwybodaeth i ddefnyddwyr (h.y. cymorth i ddatblygu neu wella gallu i ganfod a chael mynediad at adnoddau priodol yn effeithlon ac yn effeithiol;

- gwerthuso gwybodaeth yn feirniadol; a chymhwysu gwybodaeth yn briodol i amcanion pellach, megis addysg, cyflogaeth, iechyd a lles);
- d) cymorth i ddefnyddwyr gael gafael ar adnoddau e-lywodraeth lleol a chenedlaethol;
- e) rhaglenni/gweithgareddau datblygu darllenwyr ar gyfer oedolion a phlant.

DASLICC 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) cyfanswm y nifer yn mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr sydd wedi'u cynnal ac/neu eu trefnu ymlaen llaw gan y gwasanaeth llyfrgell yn ei fannau gwasanaeth ei hun neu mewn lleoliadau eraill o fewn yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000;
- b) canran y rhai sydd wedi mynychu'r sesiynau hyn a ddywedodd fod mynychu wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion;
- c) nifer y cwsmeriaid sydd wedi cael cymorth drwy gael hyfforddiant anffurfiol yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.

Mynediad i bawb Hawliau craidd

HCSLICC 4 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru ar agor i holl aelodau eu cymunedau.

HCSLICC 5 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy.

HCSLICC 6 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas.

HCSLICC 7 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig. Gall anghenion arbennig fod wedi'u hachosi gan nam iechyd a nam corfforol, anfantais economaidd (e.e. diweithdra hirdymor), gwahaniaeth diwylliannol (e.e. iaith, newydd-ddyfodiaid), cefndir addysgol, neu amgylchiadau eraill sy'n galw am wasanaethau llyfrgell arbennig.

Dangosyddion ansawdd

DASLICC 5 Lleoliad mannau gwasanaeth

Bydd awdurdodau yn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol o ran lleoliad mannau gwasanaeth ac arosfannau llyfrgelloedd teithiol, yn ôl dwysedd eu poblogaeth:

Dwysedd y boblogaeth	% yr aelwydydd	Pellter o'r llyfrgell
20 neu ragor o bobl i bob hectar:	O leiaf 95%	o fewn 2 milltir i fan gwasanaeth sefydlog
Rhwng 1.1 a 19.9 person i bob hectar:	O leiaf 75%	o fewn 2.5 milltir (neu 10 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol
1.0 person neu lai i bob hectar:	O leiaf 70%	o fewn 3 milltir (neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol

DASLICC 6 Defnyddio'r llyfrgell

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) cyfanswm nifer yr ymweliadau i lyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000;
- b) cyfanswm nifer yr ymweliadau allanol i wefan llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000;
- c) cyfanswm nifer y benthycwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.

DASLICC 7 Presenoldeb defnyddwyr yn nigwyddiadau'r llyfrgell fesul pob 1,000 yn y boblogaeth

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- cyfanswm y nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell yn ei fannau gwasanaeth ei hun neu mewn lleoliadau eraill yn yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.

Dysgu am oes Hawliau craidd

HCSLICC 8 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthycu llyfrau am ddim.

HCSLICC 9 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth.

HCSLICC 10 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu defnydd am ddim o'r Rhynggrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi.

HCSLICC 11 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd.

HCSLICC 12 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau cyhoeddi sy'n newid.

HCSLICC 13 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhannu eu catalogau, er mwyn i ddefnyddwyr fedru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru.

Dangosyddion ansawdd

DASLICC 8 Deunydd darllen cyfoes

(i) Dylai awdurdodau llyfrgell sicrhau:

naill ai o leiaf 243 eitem am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl

neu leiafswm gwariant o £2,180 am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl bob blwyddyn.

Mae llyfrau ac e-lyfrau, cyfnodolion, deunydd clyweledol ac adnoddau electronig oll wedi'u cynnwys.

(ii) Dylai derbyniadau deunyddiau i'w benthycu yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys deunyddiau electronig ar gyfer eu benthycu) gyfateb i o leiaf 11% o'r stoc fenthycu ar ddechrau'r flwyddyn.

DASLICC 9 Deunydd darllen priodol

(i) Dylai canran y gyllideb deunyddiau sy'n cael ei wario ar adnoddau i blant adlewyrchu canran y plant yn y boblogaeth breswyl, o fewn ± 2 bwynt canran.

(ii) O ran gwario ar brynu deunydd Cymraeg eu hiaith, dylid gwario:

naill ai o leiaf 4% o'r gyllideb deunyddiau

neu o leiaf £750 am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg.

DASLICC 10 Mynediad ar-lein

(i) Dylai pob llyfrgell sefydlog a theithiol ddarparu o leiaf un ddyfais sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r Rhyngryd ac i gynnwys digidol ar y rhwydwaith. Dylai awdurdodau sicrhau cyfanswm cyfanredol ledled yr awdurdod o ddim llai na 9 dyfais o'r fath am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl. Mae cyfrifiaduron, gliniaduron, llechi a dyfeisiau symudol eraill oll wedi'u cynnwys.

(ii) Dylai'r holl fannau gwasanaeth sefydlog ddarparu mynediad Wi-Fi i ddefnyddwyr ddod â'u gliniaduron neu eu dyfeisiau symudol eu hunain yno.

DASLICC 11 Defnyddio TGCh - % yr amser sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) canran yr amser a neilltuwyd ar gyfer defnyddio offer TGCh sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd (h.y. cyfrifiaduron a dyfeisiau eraill a ddarperir gan y llyfrgell) sydd wedi'i ddefnyddio mewn gwirionedd gan y defnyddwyr.
- b) canran yr amser y mae gwasanaethau Wi-Fi ar gael ac yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd.

Dylai'r rhain gael eu cydgrynhoi ar draws yr holl lyfrgelloedd yn yr awdurdod, gan gynnwys rhai teithiol.

DASLICC 12 Cyflenwi ceisiadau

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) canran y ceisiadau am ddeunyddiau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 7 diwrnod calendr i wneud y cais;
- b) canran y ceisiadau am ddeunyddiau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 15 diwrnod calendr i wneud y cais.

Arweinyddiaeth a datblygu Hawliau craidd

HCSLICC 14 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau.

HCSLICC 15 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

HCSLICC 16 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.

HCSLICC 17 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at strategaeth, polisiau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.

HCSLICC 18 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu proses gwyno sy'n glir, yn amserol ac yn dryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le.

Dangosyddion ansawdd

DASLICC 13 Lefelau a chymwysterau staff

- (i) Rhaid i awdurdodau llyfrgell sicrhau lefel staffio ar gyfer y gwasanaeth o 3.6 (cyfwerth ag amser llawn) am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl. Mae staff nad ydynt yn gweithio yn uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell (e.e. glanhawyr) wedi'u heithrio.
- (ii) Ni ddylai cyfanswm nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) sydd â chymwysterau cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl syrthio yn is na 0.65. Gellir cynnwys staff sydd â chymwysterau mewn meysydd cytras, megis TGCh, rheoli hamdden neu dreftadaeth neu addysg a dysgu, yn y cyfrifiadau os oes ganddynt swyddi sy'n gofyn am y cymwysterau hynny, a phan fo'r cymwysterau sydd ganddynt yn berthnasol i'w rolau a'u swyddogaethau presennol yn y gwasanaeth llyfrgell.

- (iii) Rhaid i reolwr gweithredol dynodedig y gwasanaeth llyfrgell

naill ai fod â chymwysterau cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth

neu fod wedi gwneud hyfforddiant perthnasol mewn rheolaeth llyfrgell o fewn y tair blynedd diwethaf.

Bydd awdurdodau hefyd yn adrodd:

- a) ymhle y mae safle'r swydd hon yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol;
- b) y swydd sydd gan y llyfrgellydd proffesiynol uchaf ei safle (os yw'n wahanol); ac
- c) ymhle y mae'r swydd honno yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol.
- (iv) Dylai o leiaf 1% o gyfanswm oriau gwaith staff gael ei dreulio mewn hyfforddiant a datblygiad personol/proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Dylid annog holl staff y llyfrgell i ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad perthnasol
- (v) Gall awdurdodau llyfrgell gynnig cyfle i aelodau'r gymuned wirfoddoli i gefnogi gwasanaethau llyfrgell ychwanegol. Gall cyfleoedd o'r fath, er enghraifft, wella sgiliau bywyd a chyflogadwyedd unigolion, gan gyfrannu at fynd i'r afael â chanlyniadau tldi.

Pan fo'r gymuned yn rhan o ddarparu'r gwasanaeth llyfrgell mewn cangen, rydym yn disgwyl bod staff ar gyflog yn gweithio ochr yn ochr â'r gwirfoddolwyr yn y llyfrgell.

Mae'n rhaid i awdurdodau llyfrgell sy'n defnyddio staff gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol sicrhau'r canlynol:

- bod cydlynedd gwirfoddolwyr penodol o blith staff proffesiynol parhaol y gwasanaeth llyfrgell yn cydlynu'r rhannau hynny o'r gwasanaeth sy'n cynnwys gweithwyr gwirfoddol;
- bod pob gwirfoddolwr yn derbyn disgrifiad ysgrifenedig o'i rôl;
- y bodlonir gofynion cyfreithiol ar gyfer pob gwirfoddolwr mewn perthynas â'u rôl;
- bod hyfforddiant cynefino a hyfforddiant parhaus yn cael ei roi i'r holl wirfoddolwyr;
- bod gwirfoddolwyr yn cael eu goruchwyllo'n briodol; ac

- eu bod wedi cyflawni, neu wrthi'n gweithio tuag at, achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.⁴

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr
- b) cyfanswm nifer oriau gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn
- c) a oes ganddynt statws achrediad sy'n gysylltiedig â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol/NOS neu a ydynt yn gweithio tuag at yr achrediad hwn.

DASLICC 14 Gwariant gweithredol

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol ni chredir ei bod yn briodol gosod targed ar gyfer gwariant llyfrgell, ond parheir i graffu'n fanwl ar y gwariant ar y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) cyfanswm y gwariant refeniw am bob 1,000 o'r boblogaeth breswyl;
- b) canrannau'r cyfanswm hwn a wariwyd ar staff, deunyddiau ac adnoddau gwybodaeth, cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu offer ac adeiladau, a chostau gweithredol eraill;
- c) cyfanswm gwariant cyfalaf am bob 1,000 o'r boblogaeth breswyl.

DASLICC 15 Cost am bob ymweliad

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- Cyfanswm y gwariant refeniw wedi'i rannu â swm nifer yr ymweliadau corfforol â safleoedd llyfrgell (gan gynnwys rhai teithiol) yn ogystal â nifer yr ymweliadau â gwefan y llyfrgell yn ystod y flwyddyn.

DASLICC 16 Oriau agor

- (i) Dylai llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru sicrhau cyfanswm oriau agor ledled yr holl fannau gwasanaeth a weinyddir gan yr awdurdod (sydd wedi'u ddiffinio fel manau sy'n darparu mynediad at ddeunyddiau, staff ac ystod o wasanaethau llyfrgell) nad yw'n llai na 120 awr y flwyddyn am bob 1,000 o drigolion.
- (ii) Mae rhan hon y dangosydd yn ymwneud â pha mor ddigonol yw rhaglen cynnal a chadw'r gwasanaeth llyfrgell a'i strategaeth staffio. Bydd awdurdodau'n adrodd:
 - a) cyfanswm nifer yr oriau yr oedd manau gwasanaeth sefydlog wedi'u cau heb gynllunio gwneud hynny neu mewn argyfwng oherwydd diffyg yn yr adeilad neu staff ddim ar gael, a chyfrifo'r cyfanswm fel canran o gyfanswm yr oriau a gynlluniwyd i fod ar agor ar gyfer yr holl fannau gwasanaeth sefydlog yn ystod y flwyddyn;
 - b) nifer arosfannau'r llyfrgell deithiol ac/neu wasanaethau cludo i'r cartref a gollwyd o ganlyniad i ddiffyg yn y cerbyd neu oherwydd nad oedd staff ar gael, fel canran o gyfanswm nifer arosfannau'r llyfrgell deithiol ac/neu wasanaethau cludo i'r cartref a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn.

⁴ Gweler <http://iiv.investinginvolunteers.org.uk/inyourcountry/iiv-wales> i gael rhagor o wybodaeth.